Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

Ysgol Uwchradd Bodedern
Bodedern
Ynys Môn
LL65 3SU

Rhif yr ysgol: 6604029

Dyddiad yr arolygiad: 2 Tachwedd 2009

gan

William Gwyn Thomas
79567

Dyddiad cyhoeddi: 7 Ionawr 2010

O dan rif contract Estyn: 1200309

ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Bodedern fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Uwchradd Bodedern rhwng 20/10/09 a 05/11/09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan William Gwyn Thomas. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.u). Mae'r tabl isod yn esbonio'r termau y mae Estyn yn eu defnyddio i nodi meintiau. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3 nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun	**1**
Crynodeb	**2**
Argymhellion	**6**
Safonau	**6**
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	**12**
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	12
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	16
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	19
Arweinyddiaeth a rheolaeth	**22**
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	22
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	24
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	26
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	**28**
Saesneg	28
Gwyddoniaeth	30
Technoleg gwybodaeth	32
Daearyddiaeth	33
Cerddoriaeth	35
Addysg gorfforol	36
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	**38**
Atodiadau	39
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	39
2 Data a dangosyddion ysgol	39
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	40
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	45
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	46

Cyd-destun

Natur y darparwr

1 Ysgol naturiol ddwyieithog ar gyfer bechgyn a merched 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Bodedern sy'n cael ei chynnal gan Awdurdod Unedol Môn (AU). Ar hyn o bryd, mae 829 ar y gofrestr gyda 114 yn y chweched dosbarth, o gymharu â 749 adeg yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2004 pryd yr oedd 83 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

2 Lleolir yr ysgol ym mhentref Bodedern yn ardal orllewinol Sir Fôn ac mae'n gwasanaethu dalgylch eang iawn. Daw tua 25% o dref Caergybi sydd yn dref â llawer o amddifadedd cymdeithasol. Mae gan lawer o'r disgyblion brofiadau a sgiliau emosiynol cyfyng. Mae gweddill y disgyblion yn byw naill mewn pentrefi bychain neu yn y wlad. Dymuna'r rhai sy'n mynychu'r ysgol fanteisio ar addysg ddwyieithog gyflawn. Nid oes unrhyw gyflogwr mawr yn yr ardal.

3 Mae'r ysgol yn derbyn cymhorthdal 'Rhagori' (a roir i ysgolion gyda 20% neu fwy o brydau ysgol am ddim (PYD). Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r PYD wedi amrywio o dan y ffigwr hwn. Yn 2008-2009, roedd bron 15% â'r hawl i PYD. Mae'r ffigwr hwn ychydig o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a'r AU. Yn 2009-2010 mae'r dangosydd dros 16%.

4 Derbynia'r ysgol ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae'n gwbl gyfun er y ceir cyfran cymharol uchel o ddisgyblion o allu canolig. Mae 43 o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysg arbennig (AAA) a 155 ychwanegol sydd angen peth cefnogaeth. Canran y disgyblion o oedran gorfodol ar y gofrestr AAA yw 26.8%. Mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y flwyddyn academaidd 2009-2010, dim ond un disgybl sydd wedi'i eithrio o'r cwricwlwm cenedlaethol (CC). Mae'r awdurdod lleol yn "gofalu am" naw disgybl ac nid oes un disgybl ar gofrestr ddeuol.

5 Daw tua 54% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith ond mae 89% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Daw 43% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Nid oes un disgybl yn derbyn cefnogaeth addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

6 Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ebrill 2007 ond roedd yn ddirprwy bennaeth yn yr ysgol am wyth mlynedd cyn ei phenodiad i'r swydd hon. O ganlyniad, roedd ganddi wybodaeth fanwl am yr ysgol cyn iddi ymgymryd â'i swydd newydd yn yr ysgol. Cyfansoddiad yr uwch dîm arweinyddol (UDA) yw'r pennaeth a dau ddirprwy bennaeth.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7 Amlinellir nodau'r ysgol yn glir yn llawlyfr yr ysgol a'r prosbectws. Blaenoriaeth yr ysgol yw galluogi disgyblion o bob gallu a chefndir i gyflawni eu llawn botensial, yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol mewn cyd-destun o gymuned ddwyieithog gynhwysol.

8 Mae'r cynllun gwella ysgol (CGY) manwl ar gyfer 2009-2010 yn nodi ardaloedd ar gyfer gwelliant sy'n cydymffurfio â saith cwestiwn allweddol Estyn. Paratôdd yr ysgol gynllun manwl ar gyfer 2009-2010 sy'n amlygu prif flaenoriaethau'r ysgol am y flwyddyn o fewn saith cwestiwn allweddol Estyn. Mae'r rhain yn cynnwys

gwella safonau yng nghyfnodau allweddol (CA) 3 a 4 a'r chweched dosbarth, datblygiad staff, addysgu a dysgu, y cwricwlwm, adnoddau a hunan arfarnu. Gesyd yr ysgol dargedau rhifiadol ar gyfer llwyddiant ar ddiwedd CA3 a CA4.

9 Yn 2010, dylai 75% o'r disgyblion gyrraedd o leiaf lefel 5 mewn asesiadau athrawon yn yr holl bynciau craidd yn gyfunol ar ddiwedd CA3 (Cymraeg iaith gyntaf 70%, Saesneg 78%, mathemateg 78% a gwyddoniaeth 83%).

Perfformiad mewn arholiadau allanol ar ddiwedd CA4

10 Y canran o ddisgyblion 15 mlwydd oed a dargedwyd ar gyfer 2010 yw:

Trothwy lefel 1 (casgliad o gymwysterau ar lefel 1 yn cyfateb i bump Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) graddau A*-G)	98%
Trothwy lefel 2 (casgliad o gymwysterau ar lefel 2 yn cyfateb i bump TGAU graddau A*	60%
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg (casgliad o gymwysterau ar lefel 2 yn cyfateb i bump (TGAU) graddau A*-C yn cynnwys Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg))	60%
Dangosydd pwnc craidd (DPC) Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf, gwyddoniaeth a mathemateg yn gyfunol.	60%
Yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig	0%
Sgôr pwyntiau cyfartalog eang (SPCE)	375

Perfformiad mewn arholiadau allanol ar ddiwedd blwyddyn (B) 12/13

11 Y canran o fyfyrwyr 17 mlwydd oed a dargedwyd ar gyfer 2010 yw:

Trothwy lefel 3 (casgliad o gymwysterau ar lefel 3 yn cyfateb i 2 lefel Uwch (U) graddau A-E)	100%
SPCE	998

Crynodeb

12 Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn ysgol dda, gynhwysol gydag ymrwymiad cryf i welliant parhaus. Mae nodweddion rhagorol i gwestiynau allweddol 3, 4, 5 a 6. Mae'r tîm arolygu'n cytuno â phump o'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Cododd y radd mewn dau gwestiwn o radd 2 i radd 1.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3. Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5. Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7. Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

13 Mae canlyniadau mewn profion, asesiadau statudol a pherfformiad mewn arholiadau allanol yn 2009 yn dda yn gyffredinol o'u cymharu â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Maent yn dda yn CA3 ac yn rhagorol yn y chweched dosbarth dros gyfnod o dair blynedd. Mae perfformiad mewn arholiadau allanol yn CA4 yn 2009 wedi gwella'n arwyddocaol o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol, roedd cyflawniad disgyblion yn 2009 yn uwch na'r hyn a ddisgwylid yn CA3 a CA4.

Pwnc	**CA3**	**CA4**	**6ed dosbarth**
Saesneg	2	2	2
Gwyddoniaeth	2	2	2
Daearyddiaeth	2	4	4
Technoleg gwybodaeth	2	2	2
Cerddoriaeth	2	2	2
Addysg gorfforol	2	2	1

14 Mae safonau mewn addysg gorfforol yn y chweched dosbarth yn rhagorol ac yn dda yn CA3 a CA4. Mae safonau mewn Saesneg, gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth a cherddoriaeth yn dda ym mhob cyfnod allweddol ac mewn daearyddiaeth yn CA3. Mae rhai nodweddion da i'r safonau mewn daearyddiaeth yn CA4 a'r chweched dosbarth ond gyda diffygion mewn meysydd pwysig. Mae'r ysgol yn rhoi sylw i'r safonau cyflawniad isel mewn daearyddiaeth.

15 Dangosir y graddau a ddyfarnwyd i'r safonau cyflawniad a arsylwyd yn y chwe phwnc a arolygwyd yn y tabl isod:

	Gradd 1	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
77 gwers	9%	71%	16%	4%	0%
Cymru gyfan 07/08	10%	60%	27%	3%	0%

16 Mae safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r (TGCh) disgyblion yn rhagorol drwy'r ysgol. Mae safonau eu sgiliau allweddol eraill i gyd yn dda. Yn y chweched dosbarth, mae sgiliau gwella eu dysgu eu hunain a chymhwyso rhif yn dda. Mae'r safonau yn yr holl sgiliau allweddol eraill yn rhagorol.

17 Mae safonau sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn rhagorol drwy'r ysgol.

18 Gwna bron pob disgybl ag AAA gynnydd da iawn yn unol â'u gallu.

19 Mae ymddygiad pob disgybl a myfyriwr yn yr ysgol yn ardderchog. Rhoddir blaenoriaeth uchel i barch o fewn yr ysgol drefnus hon. Mae'r holl ddysgwyr yn gwrtais iawn oddi mewn a thu allan i'r ysgol. Mae gan bron pob dysgwr agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith.

20 Mae presenoldeb wedi gwella ac mae'r cyfartaledd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r AU. Mae gweithdrefnau monitro'r ysgol a swyddogion yr AU yn fanwl ac effeithiol. Mae bron pob disgybl yn brydlon i'r gwersi.

21 Mae safonau datblygiad diwylliannol, cymdeithasol a moesol y disgyblion a'r myfyrwyr yn rhagorol; maent yn dda yn eu datblygiad moesol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

22 Yn gyffredinol, mae'r addysgu'n dda. Mae ansawdd y perthnasoedd rhwng athrawon a disgyblion yn rhagorol bron ym mhob achos. Mae llawer o nodweddion da i'r addysgu ar draws y rhan fwyaf o wersi.

23 Yn gyffredinol, mae cyflymder a her mewn llawer o wersi a defnyddir adnoddau'n dda iawn. Mae gan athrawon wybodaeth dda iawn o'u pwnc a defnyddir y sgiliau allweddol yn effeithiol mewn gwersi.

24 Mae ansawdd yr addysgu, yn y chwe phwnc a arolygwyd a hefyd yn y gwersi eraill yr ymwelodd yr arolygwyr â hwy yn well na'r cyfartaleddau cenedlaethol yr adroddwyd arnynt yn adroddiad blynyddol Estyn.

95 gwers	**Gradd 1**	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
Ysgol-gyfan	18%	65%	13%	4%	0%
Cymru gyfan 07/08	17%	58%	22%	3%	0%

25 Mae i ansawdd yr addysgu mewn daearyddiaeth yn CA4 a'r chweched dosbarth rai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig.

26 Mae ansawdd y marcio'n dda'n gyffredinol. Mewn llawer o'r meysydd pynciol, mae arweiniad manwl i ddisgyblion ar sut i wella.

27 Mae gan yr ysgol system TGCh ragorol ar gyfer olrhain cynnydd dysgwyr ac adnabod y rhai sy'n perfformio'n well neu'n waeth na'r disgwyliadau. Mae'r holl ddisgyblion yn deall yn glir arwyddocâd asesu ac maent yn ymwybodol o'u targedau. Ceir enghreifftiau da o ddisgyblion yn ymwneud â'r prosesau hunan asesu ac asesu eu cyfoedion. Datblyga'r prosesau'n effeithiol.

28 Rhydd yr adroddiadau arweiniad manwl i rieni ar gynnydd eu plant ond ychydig iawn o dargedau ar gyfer gwelliant.

29 Bodlona cwricwlwm yr ysgol y gofynion cyfreithiol ar gyfer disgyblion o oed statudol. Mae'n cynnig ystod ragorol o ddewisiadau pynciol i'w disgyblion yn CA4 ac i fyfyrwyr yn y chweched dosbarth, gan gynnwys amryw drwy gydweithio. Mae'r cwricwlwm ar gael i bawb a darpara gyfleoedd priodol i'r holl ddysgwyr gael cymwysterau.

30 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith yn dda drwy'r ysgol.

31 Mae'r ystod ragorol o weithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi datblygiad personol, cymdeithasol, diwylliannol a moesol y dysgwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o'r ystod eang o weithgareddau diwylliannol sydd ar gael.

32 Mae cysylltiadau cwricwlaidd effeithiol i helpu disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd. Mae trefniadau trosglwyddo i ac o fewn yr ysgol yn rhagorol.

33 Mae partneriaethau gyda sefydliadau eraill a chonsortia lleol yn rhagorol. Mae cysylltiadau gyda rhieni yn dda. Darpara busnesau gyfleoedd profiad-gwaith ac mae siaradwyr allanol yn gwella datblygiad cymdeithasol a moesol disgyblion yn yr ysgol. Cyfranna'r gwasanaeth gyrfaoedd yn dda i'r broses dewisiadau yn B9 a B11.

34 Mae sgiliau entrepreneuraidd y dysgwyr yn dda yn CA3 ac yn rhagorol yn CA4 a'r chweched dosbarth. Mae'r modd y mae'r ysgol yn ystyried anghenion cyflogwyr yn dda drwy'r ysgol.

35 Mae cyfraniad yr ysgol i fenter Ysgolion Iach yn rhagorol. Mae’n gweithio ar lefel 6 o’r cynllun. Cyfranna'r ysgol yn effeithiol i les y disgyblion mewn dulliau eraill. Mae i ffitrwydd flaenoriaeth uchel. Cefnogir gweithgareddau corfforol yn dda gan gynnwys y rhai tu allan i oriau arferol yr ysgol. Mae'r ysgol yn gyson yn codi ymwybyddiaeth o faterion cynaladwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

36 Mae'r cyfleoedd i'r holl ddysgwyr ddefnyddio'u sgiliau dwyieithog yn rheolaidd yn yr ysgol yn rhagorol.

37 Mae ansawdd y gofal a'r gefnogaeth i'r holl ddisgyblion gan aelodau staff a gwasanaethau cefnogi yn rhagorol. Mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth a roddir gan y mwyafrif o staff â chyfrifoldebau bugeiliol a'u timau tiwtor effeithiol. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys aelodau o'r UDA a staff nad ydynt yn addysgu.

38 Darperir cefnogaeth ragorol i ddisgyblion ag AAA. Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r rheolaeth o AAA yn gryfder arbennig yn yr ysgol ac yn nodwedd ragorol. Mae'r cysylltiadau cryf gyda'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn sicrhau adnabyddiaeth gynnar o ddisgyblion gydag anawsterau dysgu.

39 Mae'r ysgol yn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion bron pob un o'i disgyblion yn dda iawn ym mhob ffordd.

40 Yn gyffredinol, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cyfleoedd cyfartal yn rhagorol. Ni chaniateir gwahaniaethu nag ymddygiad annymunol. Mae'r cyngor ysgol yn gorff effeithiol ac mae'n cyfrannu'n dda i fywyd o fewn yr ysgol ac ystyrir barn y dysgwyr yn ofalus.

41 Mae gweithdrefnau amddiffyn plant wedi'u gwreiddio'n dda.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

42 Mae rhinweddau arweinyddiaeth y pennaeth a'i UDA yn rhagorol. Mae'r pennaeth yn uchel ei pharch yn yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'n barod i wneud a gweithredu penderfyniadau anodd. Darpara aelodau o'i thîm UDA arweinyddiaeth dda yn eu meysydd perthnasol. Gweithia'r pennaeth a'i dau ddirprwy bennaeth yn arbennig o dda fel tîm

43 Mae llinellau cyfathrebu clir a chaiff pawb eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae monitro trylwyr o berfformiadau timau a staff. Mae monitro gan yr UDA a bron pob un â chyfrifoldebau rheoli yn sicrhau fod safonau mewn llawer o feysydd yn gwella. Caiff meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant eu blaenoriaethu a'u trin yn briodol.

44 Diffinnir gwaith a disgwyliadau rheolwyr uwch a chanol yn glir. Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer gwelliant a'i fonitro'n rhagorol. Mae hunan arfarnu yn drylwyr, systematig ac wedi'i wreiddio yn ethos yr ysgol. Mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr wedi'u cysylltu â chyfadrannau ac adrannau.

45 Mae'r ysgol wedi'i staffio'n dda gyda'r nifer priodol o staff cymwysedig a phrofiadol ar gyfer anghenion cwricwlaidd a'r rhan fwyaf o anghenion gweinyddol. Mae rheolaeth a'r defnydd o staff addysgu a chefnogi, gan gynnwys adnoddau ar gyfer ailfodelu'r gweithlu wedi'u defnyddio'n effeithiol. Mae datblygiad staff yn nodwedd dda. Gweithredir system rheoli perfformiad dda.

46 Mae'r gofalydd a rheolwyr adeiladau'r ysgol yn sicrhau y cedwir yr ysgol a'r safle i safon uchel. Caiff y gyllideb ei monitro a'i rheoli'n effeithiol iawn gan y pennaeth a'r swyddog gweinyddol. Ar hyn o bryd, nid oes digon o lyfrau cyfair yn y llyfrgell.

47 Oherwydd arweinyddiaeth ragorol y pennaeth a'i UDA, y gefnogaeth i ddisgyblion, ymddygiad disgyblion, ansawdd da'r addysgu a chanlyniadau arholiadau sy'n gyffredinol dda, darpara'r ysgol werth da am arian.

48 Mae darpariaeth yr addysg yn y chweched dosbarth yn gost-effeithiol.

49 Ymatebodd yr ysgol yn dda iawn i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad 2004.

Argymhellion

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, dylai'r ysgol ganolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

*A1 Parhau i wella safonau academaidd disgyblion yn CA4, gan gynnwys safonau mewn daearyddiaeth yn CA4 a'r chweched dosbarth.

*A2 Gwella ansawdd yr addysgu o dda i ragorol.

** Mae'r CGY yn rhoi sylw i'r argymhellion hyn.*

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i CGY cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd:2 Nodweddion da a dim diffygion pwysig

50 Mae'r radd hon yn cyfateb i'r radd yn hunan arfarniad yr ysgol.

51 Mae safonau mewn pump o'r chwe phwnc a arolygwyd yn dda neu well ym mhob cyfnod allweddol. Bu gwelliant arwyddocaol ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yn CA4 dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn 2009, cafwyd y canlyniadau gorau a gyflawnwyd erioed gan yr ysgol. Llwyddodd bron pob disgybl i wneud cynnydd da neu well o un cyfnod allweddol i'r llall o 2007 ymlaen.

52 Bu canlyniadau yn y chweched dosbarth yn rhagorol mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf o ganlyniad i effaith Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC). Mae'r SPCE yn y chweched dosbarth yn 2009, 353 o bwyntiau yn uwch na'r darlun cenedlaethol.

53 Mae effaith cadarnhaol addysg gorfforol a cherddoriaeth ar safonau'n gyffredinol i'w weld yn amlwg yn CA3 a CA4. Dysgir y ddau bwnc hyn oddi ar y safle yn y chweched dosbarth mewn ysgol arall. Arfarnwyd y safonau yn y ddau bwnc drwy archwilio gwaith myfyrwyr a thrafodaethau gyda'r myfyrwyr. Lle'r oedd yn ymarferol, arsylwyd bloc o wersi i arfarnu safonau ond nid ansawdd yr addysgu.

54 Mae rhai nodweddion da yn CA4 a'r chweched dosbarth mewn daearyddiaeth, ond gyda diffygion mewn meysydd pwysig (gradd 4)

55 Yn gyffredinol, mae safonau wedi gwella'n sylweddol ers penodiad y pennaeth newydd.

CA3 a CA4

Llwyddiant disgyblion o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig

56 Mae dangosydd PYD ar gyfer 2009 yn agos iawn i 15%. Mae'n ffiniol rhwng dwy ffin PYD. Rhoddodd y tîm ystyriaeth ofalus i'r elfen hon wrth benderfynu ar leoliad yr ysgol yn chwarteli meincnodi ar gyfer CA3 a CA4.

57 Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd CA3 yn amrywio. Yn gyffredinol, roedd cyrhaeddiad wedi gwella'n sylweddol yn 2009 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd canlyniadau Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf, gwyddoniaeth, mathemateg a'r DPC yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail dangosydd PYD yn yr ystod 15-20%. Roedd canlyniadau yn y mwyafrif o'r pynciau sylfaen yn y chwarter uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru.

58 Roedd cyflawniadau yn CA3 yn uwch na'r disgwyl yn 2009, ar sail cyrhaeddiad blaenorol, yn y tri phwnc craidd yn gyfunol, Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf, gwyddoniaeth a mathemateg. Roedd y canran a gyflawnodd lefel 5 neu well yn y DPC, Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd teulu (gosodwyd yr ysgol mewn grŵp o naw ysgol mewn cyd-destun tebyg). Roedd Saesneg yn gyfartal â, ond mathemateg yn is na'r cyfartaledd teulu. Roedd yr ysgol mewn safle da yn y dangosyddion hyn o gymharu â'r naw ysgol yn y teulu. Dim ond canlyniadau Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg oedd yr un fath â'r cyfartaleddau lleol. Roedd y dangosyddion eraill i gyd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

59 Mae perfformiad disgyblion mewn arholiadau allanol yn CA4 yn 2009 yn dynodi, o gymharu â 2007, fod perfformiad yr ysgol wedi gwella'n arwyddocaol bron ym mhob dangosydd. Mae'r gwelliant gorau yn y DPC lle'r oedd cynnydd o 21 pwynt canran (o 35% yn 2007 i 56% yn 2009) gan osod y dangosydd hwn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

60 O gymharu â'i theulu o naw ysgol, rhagorodd Ysgol Uwchradd Bodedern ar bob un o ysgolion y teulu yn y dangosydd hwn. Yn CA4, ni osodwyd yr ysgol yn is na phedwerydd mewn unrhyw ddangosydd yn erbyn perfformiad y teulu.

61 Fodd bynnag, at ei gilydd, mae perfformiad cyffredinol disgyblion mewn arholiadau allanol yn CA4 dros dair blynedd, yn arbennig yn 2007 a 2008, yn gosod yr ysgol islaw perfformiad cyfartalog ysgolion tebyg yng Nghymru, ond nid yn 2009.

62 Roedd perfformiad gorau'r ysgol yn 2009 pan :

- gyflawnodd 93% o'r disgyblion y trothwy lefel1;
- gyflawnodd 65% o'r disgyblion y trothwy lefel 2; a
- gyflawnodd 65% o'r disgyblion y trothwy lefel 2 yn cynnwys mathemateg a Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf**.**

63 Mae'r canlyniadau'n uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru o'i gosod yn y 15-20% PYD. Ac eithrio canlyniadau SPCE, mae'r canlyniadau'n gosod yr ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu yn y dangosyddion hyn.

64 Enillodd tua 19% o'r disgyblion raddau A*/A yn arholiadau TGAU yn 2009. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r 12.2% a enillodd raddau A*/A yn 2004.

65 Roedd cyflawniad yn CA4 yn 2009 yn dda neu'n well na'r disgwyl yn seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol yn CA3. Roedd yn rhagorol bron ym mhob dangosydd yn seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol yn CA2. Gosodwyd yr ysgol yn chwarter uchaf canlyniadau bron ym mhob dangosydd o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru.

66 Mae merched yn rhagori ar y bechgyn yn y DPC, Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth yn asesiadau diwedd CA3 yn 2008 a 2009.

67 Yn CA4, yn arholiadau TGAU yn 2008 a 2009, roedd y merched yn rhagori ar y bechgyn yn y trothwy lefel 1, y ddau ddangosydd trothwy lefel 2 a'r SPCE.

Eu cynnydd wrth ddysgu

68 Mae cynnydd disgyblion bron ym mhob gwers yn CA3 a CA4 yn dda.

69 Dyfarnwyd y graddau canlynol ar gyfer safonau cyflawniad yn CA3 a CA4 yn y 57 gwers a arsylwyd yn y chwe phwnc a arolygwyd.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
CA3	6%	84%	7%	3%	0%
CA4	12%	64%	24%	0%	0%
CA3 a CA4	9%	75%	14%	2%	0%

70 Mewn 84% o'r gwersi, cyflawnodd y disgyblion safonau da a dim diffygion pwysig. Mewn 98% o'r gwersi roedd safonau da yn gorbwyso diffygion.

71 Roedd y graddau a ddyfarnwyd yn yr arolygiad yn uwch na'r graddau 1 a 2 a ddyfarnwyd i safonau (70%) ym mhob ysgol uwchradd a arolygwyd yn 2007-2008. Maent hefyd yn hafal â tharged cenedlaethol 2010 "Gweledigaeth ar Waith" o 98% o safonau i gyrraedd lefel 1, 2 neu 3.

72 Yn CA3, mae safonau yn y chwe phwnc a arolygwyd yn dda neu well. Cynrychiola hyn welliant mewn pedwar o'r pynciau a arolygwyd ers yr arolygiad diwethaf.

73 Yn CA4, mae safonau'n dda mewn cerddoriaeth, Saesneg, technoleg gwybodaeth ac addysg gorfforol. Barnwyd safon y gwaith a arolygwyd yn y gwersi daearyddiaeth yn CA4 yn radd 3. Bu perfformiad mewn daearyddiaeth yn yr arholiadau allanol yn sylweddol is na chyfartaleddau'r AU a chenedlaethol dros amryw o flynyddoedd. Y radd gyfansawdd a ddyfarnwyd ar gyfer safonau yn y pwnc hwn oedd gradd 4. Roedd nodweddion da, ond diffygion mewn ardaloedd pwysig.

74 Yn CA3 a CA4, mae safonau bron ym mhob un o'r medrau allweddol o leiaf yn dda a dim diffygion pwysig. Medrau TGCh y disgyblion yw'r unig fedr sy'n rhagorol. Mae bron pob disgybl yn defnyddio sgiliau prosesu geiriau a phecynnau efelychiad yn effeithiol iawn. Mae'r sgil o wella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain yn dda a dim diffygion pwysig yn y ddau gyfnod allweddol.

75 Mae sgiliau cyfathrebu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda neu well yn y ddwy iaith ac maent yn gwrando'n dda ar eu hathrawon. O gael y cyfle, defnyddiant ymatebion estynedig yn hyderus. Mae sgiliau darllen yn dda a chefnogir y rhai sydd ag anawsterau darllen er mwyn gwella oedran darllen. Mae gwaith ysgrifennu'n dda, o safbwynt llithrigrwydd a chywirdeb technegol, yn unol â gallu.

76 Gall bron yr holl ddisgyblion gymhwyso eu sgiliau rhif yn dda. Mae bron pob disgybl yn hyderus wrth ddefnyddio rhif mewn ystod o bynciau ar draws y cwricwlwm.

77 Mae sgiliau dwyieithog y disgyblion yn rhagorol. Defnyddir y Gymraeg yn gyson drwy'r ysgol ar bob achlysur. Siaradodd y disgyblion â'i gilydd a gyda'r arolygwyr i safon dda iawn.

78 Gwna disgyblion ag AAA gynnydd da yn unol â'u gallu. Gwna rhai gynnydd da iawn. Yn CA3 a CA4, cyflawna llawer o ddisgyblion isel eu gallu yn dda.

79 Datblygir prosesau hunan asesu'n dda yn CA3 a CA4. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA3 a CA4 yn deall yr hyn a wnânt a pha mor dda yw eu cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA4 yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella ac mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safon eu gwaith.

80 Nid yw lleiafrif o ddisgyblion CA4 yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt gan nad ydynt yn cynhyrchu gwaith cwrs i'r safon a ddisgwylir.

81 Mewn ychydig iawn o bynciau yn CA4, cynnydd cyfyngedig a wna disgyblion tuag at eu targedau.

Datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu

82 Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol yn CA3 a CA4. Dealla'r disgyblion y disgwyliadau sydd arnynt o safbwynt eu gwaith ac o safbwynt eu hymddygiad a'u hagweddau. Yn ystod yr arolygiad, roedd disgyblion yn gwrtais a boneddigaidd.

83 Mae'r ysgol yn gymuned drefnus, ofalgar a chynhwysol. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gwaharddwyd 25 o ddisgyblion dros dro ac ni waharddwyd un disgybl yn barhaol.

84 Roedd lefelau presenoldeb yn 91.3% yn 2008/9. Mae hyn yn uwch na'r 91% ar gyfer Cymru gyfan yn 2008/9. Mae hefyd yn uwch na chyfartaledd yr AU o 90.9%. Mae presenoldeb wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae bron pob disgybl yn brydlon i wersi.

85 Gwna bron pob disgybl gynnydd rhagorol yn gyffredinol yn eu datblygiad personol, cymdeithasol, moesol ac ehangach. Mae gwerthoedd wrth wraidd yr ysgol sy'n gyson yn mynnu safonau uchel o ddisgwyliadau ac ymddygiad. Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda a dim diffygion pwysig. Mae safonau'n dda.

86 Mae safonau datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn rhagorol. Mae'r dimensiwn diwylliannol Cymreig yn nodwedd ragorol.

87 Darperir disgyblion CA3 a CA4 ar gyfer cymryd rhan yn y gweithle a'r gymuned i safon dda iawn.

Chweched dosbarth

Llwyddiant disgyblion o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig

88 Yn gyffredinol, mae safonau cyflawniad yn amrywio ond yn bennaf yn rhagorol mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf (2007-2009).

89 Mae canlyniadau safon Uwch yn uwch na'r rhai a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae llwyddiant myfyrwyr i ennill dwy radd lefel Uwch, A-C wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaleddau cenedlaethol mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

90 Mae canlyniadau CBC yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau cenedlaethol. Pan gynhwysir y llwyddiannau hyn, mae perfformiad yr ysgol yn y chweched dosbarth yn rhagorol.

91 Mae perfformiad mewn arholiadau allanol yn dda iawn mewn perthynas â gallu myfyrwyr ac mewn perthynas â'r raddfa llwyddiant uchel.

92 Yn 2008 a 2009, cyflawnodd 100% o'r myfyrwyr y trothwy lefel 3, yn uwch na'r cyfartaledd lleol (94%) a llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (95%).

93 Yn 2009, roedd SPCE y myfyrwyr o 998 yn uwch na'r cyfartaledd lleol (931) ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (688).

94 Roedd y merched yn rhagori ar y bechgyn yn yr SPCE yn 2008 a 2009.

95 Mae safonau'n gwella ymhellach gan fod rhai myfyrwyr y chweched dosbarth yn astudio ychydig o gyrsiau galwedigaethol sy'n briodol i'w gallu ac maent oll yn astudio'r CBC.

96 Ym Medi 2009, dychwelodd 60% o ddisgyblion B11 i'r chweched dosbarth a 24% yn parhau gyda'i hastudiaethau mewn addysg bellach. Dim ond 1% adawodd yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig. Cafodd pob myfyriwr oedd yn gadael B13 le mewn prifysgol a bron pob un yn derbyn y cynnig.

Eu cynnydd wrth ddysgu

97 Gwna llawer o ddisgyblion gynnydd da yn ystod eu cyfnod o astudio yn y chweched dosbarth.

98 Roedd safonau'n dda gyda nodweddion rhagorol mewn addysg gorfforol. Roedd safonau mewn cerddoriaeth yn dda a dim diffygion pwysig. Dysgir y pynciau hyn gan athrawon eraill mewn sefydliad arall.

99 Roedd safonau mewn tri o'r pedwar pwnc arall a arolygwyd ac a addysgwyd yn yr ysgol yn dda a dim diffygion pwysig.

100 Roedd rhai nodweddion da yn safonau daearyddiaeth (gradd 4) ond diffygion mewn meysydd pwysig. Ychydig iawn o fyfyrwyr (tri) sy'n astudio'r pwnc yn B12/13. Mae'r radd hon yn adlewyrchu'r safonau a gyflawnir gan y nifer fach iawn o fyfyrwyr sy'n sefyll arholiadau allanol mewn daearyddiaeth.

101 Dyfarnwyd y graddau canlynol i safonau cyflawniad yn y pedwar pwnc a arolygwyd a'r 17 gwers a arsylwyd yn y chweched dosbarth ac asesiad o safonau mewn cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Chweched dosbarth	10%	60%	20%	10%	0%
Cymru 2007/8	16%	67%	15%	2%	0%

102 Er bod y sampl yn fach, dengys y ffigurau hyn fod myfyrwyr yn cyflawni safonau sydd â nodweddion da'n gorbwyso diffygion mewn 90% o'r gwersi. Amlyga'r proffil graddau o safonau a ddyfarnwyd i wersi a arolygwyd yn y chweched dosbarth fod 70% o'r gwersi yn raddau 1 a 2. Oherwydd ffactorau dylanwadol a amlygwyd eisoes, mae'r graddau hyn yn is na'r rhai yr adroddwyd arnynt yn Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM) am 2007-2008.

103 Mae bron pob myfyriwr yn ennill cymhwyster yn yr holl fedrau allweddol yn y chweched dosbarth. Mewn pedair o'r chwech sgil allweddol, mae safonau myfyrwyr yn rhagorol. Mae safonau sgiliau myfyrwyr i wella eu dysgu eu hunain a chymhwyso rhif yn dda a dim diffygion pwysig.

104 Mae sgiliau TGCh myfyrwyr yn rhagorol fel y'u hamlygir yn eu gwaith prosiect a chyflwyniadau dosbarth. Defnyddiant y sgil hon i gryfhau eu sgiliau cyfathrebu a gwella safonau eu cyflwyniadau. Gweithiant yn effeithiol iawn mewn parau neu grwpiau mwy wrth wneud eu cyflwyniadau.

105 Amlygir lefelau rhagorol o gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn trafodaethau dosbarth. Yn gyffredinol, Cymraeg oedd yr unig iaith a siaradwyd gan bron pob myfyriwr mewn sgyrsiau ymysg myfyrwyr o gwmpas yr ysgol ac yn yr amser rhydd yn y ganolfan adnoddau. Amlygwyd sgiliau ieithyddol uchel yn y trafodaethau a gynhaliwyd gydag aelodau o'r cyngor ysgol. Mae sgiliau dwyieithog y myfyrwyr yn rhagorol.

106 Mae gan y rhan fwyaf o'r myfyrwyr ddealltwriaeth dda o'u lefelau cyflawniad a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Caiff eu gwaith ei farcio'n fanwl a rhoddir targedau ar gyfer gwelliant. Mae'r adborth ysgrifenedig yn adeiladol, yn bwnc penodol ac o safon dda.

Datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu

107 Mae safonau datblygiad personol, cymdeithasol, moesol, diwylliannol a dysgu'r myfyrwyr yn rhagorol. Mae eu hagwedd at ddysgu'n dda.

108 Maent yn paratoi hyd eithaf eu gallu ac yn defnyddio cyfleusterau astudio'n briodol. Derbyniant gyfrifoldeb a gweithiant yn dda fel grwpiau i godi arian i elusennau. Mae gan bron bob myfyriwr gydwybod cymdeithasol cryf.

109 Mae bron pob myfyriwr yn batrwm ymddwyn da i ddisgyblion iau ac i'w gilydd. Mae eu sgiliau arweinyddol yn dda iawn. Mae'r perthnasoedd rhwng disgyblion hŷn ac iau yn gryf. Cefnogant ddisgyblion iau sy'n cael anawsterau cymdeithasol neu academaidd. Gweithia'r holl fyfyrwyr yn effeithiol fel rhan o gynllun 'buddy' yr ysgol.

110 Mae safonau datblygiad cymdeithasol a moesol y myfyrwyr yn rhagorol ac mae safonau eu datblygiad diwylliannol ac ysbrydol yn dda.

111 Mae'r myfyrwyr yn arddangos ymddygiad cyfrifol iawn a pharch tuag at ei gilydd ac aelodau o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

112 Gall myfyrwyr ddatgan eu barn yn agored a gonest. Gwrandawant yn ofalus ar safbwyntiau eraill a gwrandewir ar eu safbwyntiau'n ofalus iawn gan y rhan fwyaf o aelodau'r staff.

113 Mae eu gallu i weithio'n rhagorol gyda'i gilydd yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at gynnal eu sgiliau datrys problemau rhagorol. Mae'r sgiliau hyn wedi eu darparu'n dda iawn ar gyfer addysg uwch.

114 Caiff presenoldeb ei fonitro'n synhwyrol a datblyga myfyrwyr arferion gweithio da. Mae presenoldeb a phrydlondeb i wersi yn dda.

115 Trefna llawer o'r myfyrwyr eu gwaith yn dda, heb oruchwyliaeth fel paratoad ar gyfer bywyd prifysgol.

116 Mae myfyrwyr yn elwa llawer o'u profiadau chweched dosbarth, yn eu datblygiad academaidd, personol, cymdeithasol, moesol ac ehangach.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

117 Mae'r radd hon yn cyfateb i'r radd yn hunan arfarniad yr ysgol.

CA3 a CA4

Pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion y dysgwyr a'r gofynion cwricwlwm neu gwrs

118 Mae nodweddion da a rhagorol yn ansawdd yr addysgu yn y mwyafrif llethol o wersi addysg gorfforol. Mewn cerddoriaeth, technoleg gwybodaeth, Saesneg, gwyddoniaeth a daearyddiaeth yn CA3, mae ansawdd yr addysgu'n dda a dim diffygion pwysig. Yn CA4 mewn daearyddiaeth, mae i'r addysgu rai nodweddion da ond diffygion mewn ardaloedd pwysig.

119 Bu gwelliant arwyddocaol yn ansawdd yr addysgu ers yr arolygiad diwethaf. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yn ansawdd yr addysgu rhwng y pynciau a arolygwyd ac yn ansawdd yr addysgu drwy'r ysgol.

120 Dengys y tabl isod ansawdd yr addysgu yn y chwe phwnc a gwersi eraill a arsylwyd yn CA3 a CA4:

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Pynciau a arolygwyd (57 gwers)	18%	67%	12%	3%	0%
Holl wersi CA3 a CA4 (74 gwers)	19%	68%	11%	2%	0%

121 Mae'r 87% o wersi a farnwyd yn radd 1 neu radd 2 yn uwch na'r darlun cenedlaethol yn 2007-2008 lle barnwyd 75% o wersi yn radd 1 a 2. Mewn 11% o'r gwersi, mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion ac mewn 2% mae rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig. Mae'r ysgol yn cymharu'n dda â tharged uwchradd "Gweledigaeth ar Waith" ar gyfer 2010, sef y dylai ansawdd yr addysgu fod yn radd 2 neu well mewn 80% o ddosbarthiadau.

122 Nodwedd ragorol o'r addysgu yw'r berthynas waith dda iawn rhwng yr athrawon a disgyblion. Mae'r berthynas hon, ynghyd â'r parch a'r cyfleoedd cyfartal a dderbynia pob disgybl, yn creu ethos dysgu cadarnhaol, hyrwyddo cymhelliant disgyblion i ddyfalbarhau yn y dosbarth ac annog safon ymddygiad uwch yn y dosbarth.

Mae nodweddion addysgu rhagorol yn cynnwys :

- defnydd pwrpasol o'r byrddau gwyn rhyngweithiol gan athrawon a disgyblion;
- ystod o dechnegau dysgu sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol disgyblion;
- gwybodaeth bynciol fanwl; a
- disgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion.

123 Mae'r athrawon yn cwrdd yn ardderchog ag anghenion ieithyddol disgyblion. Drwy gynllunio cwricwlaidd pwrpasol, monitro gofalus a gweithgareddau penodol, darpara'r ysgol gyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddefnyddio a chysylltu eu sgiliau dwyieithog mewn ystod o sefyllfaoedd bob dydd a meysydd pynciol. Mae ffocws ar derminoleg yn y ddwy iaith, y defnydd o fatiau iaith a fframiau ysgrifennu a chynllunio i ddatblygu sgiliau yn y defnydd pwrpasol cyfamserol o iaith. Mae hyn yn ddefnydd effeithiol iawn o'r ddarpariaeth i gefnogi anghenion ieithyddol o'r grŵp Trochi a hwyrddyfodiaid iddynt fedru ymdoddi a sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r iaith frodorol.

124 Ar draws yr holl wersi, mae llawer o nodweddion da'r addysgu'n cynnwys:

- cyflwyniadau bywiog yr athrawon yn tynnu ymateb;
- amseru gofalus i sicrhau cyflymder da i'r gwersi;
- ystod eang o weithgareddau addas;
- tasgau effeithiol i ddysgwyr o wahanol alluoedd;
- defnydd priodol o amrywiaeth o adnoddau dysgu;
- gwaith grŵp a phâr wedi'i gynllunio i annog disgyblion i drafod; a
- thechnegau cwestiynu effeithiol.

125 Mae'r gwersi hyn yn cael eu cynllunio'n ofalus ac mae amcanion y gwersi yn cael eu rhannu, eu defnyddio a'u hadolygu ar y diwedd.

126 Gwerthfawroga'r disgyblion yr ymrwymiad a'r gefnogaeth a rydd yr athrawon. Mae nifer dda iawn o athrawon yn rhoi yn hael o'u hamser i gynnig cefnogaeth ychwanegol mewn sesiynau adolygu sy'n atgyfnerthu dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n helaeth mewn sesiynau sgiliau astudio gyda chwmni allanol er mwyn meithrin sgiliau dysgu annibynnol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau yn B11.

127 Y diffygion a welwyd yn y gwersi gradd 3 a gradd 4 oedd :

- ystod gyfyng o dechnegau addysgu i sicrhau cyfranogiad gweithredol disgyblion;
- addysgu athro-ganolog;
- diffyg cynllunio pwrpasol a strwythuro tasgau'n ofalus;
- cyflymder araf i'r gwersi;
- tasgau nad ydynt yn ymestyn disgyblion; a
- chyfleoedd prin i ddisgyblion gymryd rhan.

128 Addysgir disgyblion ag AAA yn dda ac mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu (CCD) yn cydweithio'n effeithiol dros ben ar draws y pynciau. Caiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar safonau. Mae'r cynorthwywyr yn cynnig cefnogaeth dda i ddisgyblion yn y clwb gwaith cartref. Lluniwyd strategaeth ar gyfer disgyblion galluog a thalentog a'r agwedd hon sy'n cael ei ffurfioli a'i datblygu'n ymhellach.

Trylwyredd yr asesu a'i ddefnydd i gynllunio a gwella dysgu

129 Mae ansawdd yr asesu, cofnodi ac adrodd yn arddangos nodweddion da a dim diffygion pwysig. Bodlonir holl ofynion statudol o safbwynt asesu a chofnodi ar gyfer pynciau'r CC ac mae'r trefniadau'n cwrdd â gofynion y byrddau arholi. Mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion asesu disgyblion a myfyrwyr ag AAA.

130 Mae gan yr ysgol bolisi asesu sy'n adnabod yn glir egwyddorion gwaelodlin ac amcanion asesu ac sy'n rhoi fframwaith cadarn ar gyfer gweithredu a rheoli'r gyfundrefn asesu'n effeithiol. Mae amserlen gydlynol ar gyfer asesu, monitro cynnydd ac adrodd i rieni.

131 Nodwedd ragorol y weithdrefn asesu yw effeithiolrwydd y system gyfrifiadurol sy'n coladu data cyfoethog er mwyn gweithredu prosesau gosod targedau a monitro sydd ar gael yn rhwydd i bob athro. Mae'r cyswllt wythnosol rhwng aelodau cyswllt yr UDA a'r arweinyddion cwricwlwm yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r cyswllt hwn yn sicrhau fod y gweithdrefnau asesu o fewn yr adrannau y maent â chyfrifoldeb drostynt yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae targedau meintiol adrannol a'r strategaethau ar gyfer monitro cynnydd ac ymateb i dangyflawni yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau cysondeb ac atebolrwydd.

132 Un o gryfderau'r ysgol yw system asesu ysgol-gyfan ar gyfer monitro cynnydd disgyblion yn erbyn graddau targed. Mae system graddio asesu glir yn seiliedig ar ymdrech a chyflawniad ar system rhyngrwyd fewnol yr ysgol dair gwaith y flwyddyn. Drwy'r system, dan gyfarwyddyd aelod o'r UDA, targedir a dilynir unigolion a grwpiau o ddisgyblion o fewn pynciau ac ar draws y blynyddoedd. Mae cydweithio agos rhwng yr UDA, arweinwyr cwricwlwm, arweinwyr bugeiliol a thiwtoriaid dosbarth yn y defnydd o ddata rhagolwg tymhorol, fel arf i hyrwyddo safonau. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth y naill a'r llall o gynnydd disgyblion yn unol â thargedau ar amryw o lefelau. Rhoddir cefnogaeth ychwanegol effeithiol i ddisgyblion drwy fentora, cyfweliadau a chyswllt â'r rhieni. Mae'r strategaethau ar gyfer monitro disgyblion yn B8/9 yn anghyson.

133 Mae'r cynllun proffilio ffurfiol yn sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i drafod eu cyflawniad gyda'u tiwtor dosbarth bob hanner tymor. Gyda'i gilydd, gosodant dargedau personol ystyrlon. Mae hwn yn ymarfer da iawn.

134 Mewn llawer pwnc, mae asesu'n gyson a chywir. Yn y pynciau hyn, mae marcio gwaith disgyblion yn fanwl gyda sylwadau clir a thargedau sy'n arwain yr unigolyn i wneud cynnydd da. Yn yr enghreifftiau gorau, gwneir defnydd da o asesu ar gyfer ymarferion dysgu drwy rannu'r meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion. Cynydda hyn ddealltwriaeth disgyblion o'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

135 Lle ceir anghysondebau mewn ymarferion asesu o fewn a rhwng adrannau, mae'r diffygion yn cynnwys :

- ansawdd yr adborth yn rhy gyffredinol i ddangos yn glir i ddisgyblion sut i wella eu gwaith; a
- diffyg cysondeb yn y defnydd o 'asesu ar gyfer dysgu' fel arf i wella safonau.

136 Mae disgyblion yn deall proses a phwrpas asesu ac maent yn ymwybodol o'u targedau pwnc meintiol. Ceir enghreifftiau da o ddisgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion mewn gwersi, ac mae'r ymarfer da hwn yn ymledu ar draws yr ysgol.

137 Yn CA3, mae'r gweithdrefnau ar gyfer safoni ansawdd gwaith disgyblion wedi datblygu'n gyson dda yn y mwyafrif o adrannau. Mae'r datblygiadau asesu hyn, ynghyd â'r gwaith o gymedroli mewn cyfarfodydd clwstwr CA2/CA3 ar gyfer y pynciau sylfaen a TGCh, yn hybu gwell dealltwriaeth mewn perthynas â safonau.

138 Mae adroddiadau blynyddol ac interim i rieni yn darparu gwybodaeth dda am ddatblygiad academaidd a phersonol eu plentyn. Er bod adroddiadau yn y mwyafrif llethol o bynciau yn nodi'n fanwl pa mor dda mae disgyblion yn cyflawni, nid ydynt bob amser yn nodi targedau penodol ar gyfer gwelliant. Mae disgyblion yn ymateb yn rheolaidd i adroddiadau drwy wneud sylw ar eu cynnydd, eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn ogystal â chofnodi eu targedau personol a phynciol yn eu ffeiliau cynnydd. Mae hyn yn ymarfer da.

139 Gall rhieni ymateb yn ysgrifenedig i'r adroddiadau drwy'r llyfrau cyswllt a thrwy fynychu nosweithiau blynyddol y rhieni. Trefnir seremoni ffeil cynnydd a gwahoddir rhieni i ddathlu cyflawniadau eu plant wrth iddynt dderbyn eu proffiliau personol.

Chweched dosbarth

Pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion y dysgwyr a'r gofynion cwricwlwm neu gwrs

140 Yn y gwersi a arsylwyd yn y chweched dosbarth mae nodweddion da'r addysgu'n gorbwyso diffygion.

141 Yn y pedwar pwnc a arolygwyd, dyfarnwyd y graddau canlynol i addysgu :

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Pedwar pwnc (17 gwers)	6%	59%	23%	12%	0%

142 Nid yw'r data'n ystyrlon gan mai dim ond ar addysgu pedwar pwnc yr arsylwyd yn yr ysgol. Gan fod cerddoriaeth ac addysg gorfforol yn cael eu haddysgu mewn sefydliad arall gan athrawon yn y sefydliad hwnnw, nid oedd modd cynnwys ansawdd yr addysgu yn y ddau bwnc hynny yn y tabl uchod.

143 Dengys y tabl isod y graddau a ddyfarnwyd am ansawdd yr addysgu yn yr holl wersi a arsylwyd yn y chweched dosbarth :

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Pob gwers (21 gwers)	14%	57%	19%	10%	0%

144 Nodwedd ragorol o'r addysgu yw'r modd y paratoir myfyrwyr ar gyfer ffurfio'u hatebion mewn arholiadau allanol drwy rannu meini prawf llwyddiant. Cyflwynir cysyniadau pynciol cymhleth yn glir ac mae'r adnoddau rhagorol yn cyfoethogi dysgu.

145 Mae llawer o'r nodweddion da yn debyg i'r rhai a welwyd mewn gwersi yn CA3 a CA4. Nodweddion ychwanegol addysgu da yw datblygiad pellach y medrau allweddol a'r pwysigrwydd a roir ar ddatblygu myfyrwyr fel dysgwyr annibynnol. Mae cwestiynu medrus sy'n annog myfyrwyr i feddwl yn ddwys ac ateb yn estynedig.

146 Mewn gwersi lle mae diffygion, mae diffyg cynllunio pwrpasol a chyflymder addas, mae cwestiynu'n rhy gyfyng i annog myfyrwyr i feddwl ac ateb mewn dyfnder. Mewn gwersi eraill, mae diffyg her a diffyg amrywiaeth yn y technegau addysgu i sicrhau cyfranogiad llawn y myfyrwyr.

147 Mae datblygiad sgiliau ieithyddol y myfyrwyr yn rhagorol. Mae'r ysgol yn sicrhau y paratoir myfyrwyr yn ddwyieithog ar gyfer byd gwaith ac addysg bellach ac uwch drwy gyfleoedd pynciol yn ogystal â phrofiad gwaith, siaradwyr allanol, achrediad sgiliau allweddol a gweithgareddau elusennol y CBC.

Trylwyredd yr asesu a'i ddefnydd i gynllunio a gwella dysgu

148 Mae system gadarn ar gyfer monitro cynnydd myfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn cynnwys :

- defnydd effeithiol o ddata i ragfynegi graddau targed pwnc;
- proffilio myfyrwyr yn rheolaidd gan diwtoriaid personol;
- monitro cynnydd yn gyson ar sail rhagfynegiadau tymhorol gan y tiwtoriaid personol a thiwtor bugeiliol y chweched dosbarth;
- trafod a gosod gyda'i gilydd y targedau ansoddol ar gyfer gwelliant;
- cadw cyswllt effeithiol gydag athrawon pwnc mewn perthynas â chynnydd myfyrwyr;
- sicrhau cefnogaeth gyson i fyfyrwyr drwy'r hyfforddwr dysgu; a
- arwain myfyrwyr i asesu eu cynnydd eu hunain yn erbyn meini prawf penodol.

149 Yn gyffredinol, mae asesu gwaith myfyrwyr yn dda gyda'r mwyafrif o athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig clir sy'n adnabod meysydd penodol ar gyfer gwelliant.

150 Hysbysir rhieni'n rheolaidd am gynnydd myfyrwyr. Mae'r sylwadau pynciol yn fanwl ac yn nodi'n glir gryfderau'r myfyrwyr. Mewn llawer achos, nid ydynt yn nodi targedau pwnc penodol i fyfyrwyr wella.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

151 Mae'r radd hon yn cyfateb i'r radd yn hunan arfarniad yr ysgol.

152 Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys :

- cwricwlwm eang ym mhob cyfnod allweddol sy'n diwallu anghenion y dysgwyr;
- ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth tu allan i oriau ysgol ac oddi ar y safle;
- partneriaethau niferus gyda darparwyr eraill a buddgyfranogwyr; a
- chyfleoedd sylweddol i hyrwyddo sgiliau dwyieithog y dysgwyr.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau'r dysgwyr

153 Mae'r cwricwlwm a gynigir yn caniatáu dysgwyr o bob gallu i astudio ystod eang a chytbwys o bynciau ac i ennill cymwysterau ym mhob cwrs a ddilynant. Mae'r cwricwlwm yn caniatáu parhad a dilyniant effeithiol rhwng blynyddoedd a chyfnodau allweddol. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

154 Ceir trefniadau trosglwyddo effeithiol a gwerthfawr i sicrhau trosglwyddiad esmwyth disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys datblygiadau cwricwlaidd cryf.

155 Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn CA4 a'r chweched dosbarth yn dda gyda nodweddion rhagorol. Yn CA4, ceir ystod o bynciau academaidd a galwedigaethol sy'n glynu wrth agenda Llwybrau Dysgu 14-19, Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC). Yn CA4, mae'r nifer o bynciau a gynigir (31) yn uwch na'r gofynion statudol ar gyfer Sir Fôn yn 2012, gan gynnwys opsiynau galwedigaethol, Mae cysylltiadau effeithiol gyda Choleg Menai a Hyfforddiant Gwynedd ac ysgolion uwchradd eraill yn ymestyn ystod y ddarpariaeth. Mae hyn wedi ehangu'r ddarpariaeth academaidd a galwedigaethol i'r holl ddisgyblion a myfyrwyr.

156 Ymestynnir y ddarpariaeth ymhellach drwy'r defnydd o gyfleusterau fideo-gynadledda i gyflwyno'r cwrs seicoleg yn y chweched dosbarth. Gwneir pob ymdrech i ddiwallu anghenion cwricwlaidd disgyblion neu fyfyrwyr.

157 Mae'r cyfleoedd o fewn yr ysgol i ddisgyblion a myfyrwyr i ehangu a chyfoethogi eu profiadau drwy amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys dysgu y tu allan i oriau ysgol ac oddi ar y safle, yn nodweddion rhagorol. Trefnir llawer o'r clybiau a'r gweithgareddau yn ystod yr awr ginio neu ar ôl ysgol. Caiff y gweithgareddau hyn eu gwella drwy'r rhai a gynigir gan y swyddog 5x60. Trefnir ymweliadau i theatrau lleol. Mae ymweliadau i fannau pellach yn cynnwys ymweliad â Pharis a thrip sgïo blynyddol. Mae grwpiau wedi ymweld ag adeilad y Senedd yng Nghaerdydd. Mae adran yr Urdd yn yr ysgol a chynhelir eisteddfod flynyddol i ddisgyblion CA3.

158 Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau allweddol a sylfaenol y dysgwyr yn dda a chaiff ei wella yn y chweched dosbarth wrth i'r myfyrwyr ymwneud â'r CBC. Cynhwysir yr elfennau hyn yng nghynlluniau gwaith pob adran. Cyfranna'r gwersi a amserlenwyd ar gyfer sgiliau yn CA3 yn effeithiol i'r gwaith. Arddangosir siartiau'n nodi'r sgiliau hyn yn glir ym mhob dosbarth ac fe'u deellir gan bawb sy'n ymwneud â hwy. Mae disgyblion sydd wedi cael eu hadnabod yn mynychu sesiynau i wella eu sgiliau iaith a rhif cyn i wersi ffurfiol ddechrau.

159 Ceir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) strwythuredig o ansawdd da sy'n dilyn canllawiau statudol a'i chyflwyno i bob disgybl a myfyriwr. Cyfranna'r rhaglen hon yn dda i ddatblygiad cymdeithasol y disgyblion. Mae'r gwasanaethau ysgol bedair gwaith yr wythnos a'r elfen o addoli ar y cyd yn y grwpiau tiwtor a'r clybiau boreol yn caniatáu i'r holl ddisgyblion a myfyrwyr ddatblygu'n ysbrydol. Mae gofynion cyfreithiol addoli ar y cyd dyddiol yn cael eu bodloni. Mae hyn yn nodwedd dda yn yr ysgol.

160 Mae datblygiad moesol y disgyblion yn rhagorol ac mae disgyblion yn dilyn cod ymarfer yr ysgol yn union. Mae bron pob disgybl o'i wirfodd yn helpu'r naill a'r llall ac maent yn gwrtais i ymwelwyr i'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cododd y dysgwyr dros £4000 i gefnogi gwanhaol elusennau lleol a chenedlaethol.

161 Cymerir camau cadarnhaol da i sicrhau datblygiad diwylliannol y dysgwyr. Caiff datblygiad diwylliannol ei gynnwys mewn llawer o bynciau yn ogystal ag ymweliadau i orielau, theatrau, safleoedd hanesyddol ac ymweliadau tramor. Mae mudiad yr Urdd yn gryf yn yr ysgol a threfnir eisteddfod lwyddiannus yn flynyddol.

162 Cyfoethogir profiadau dysgu gan bartneriaethau effeithiol. Mae hyn yn nodwedd ragorol. Mae'r partneriaethau'n ymwneud â rhieni, llywodraethwyr, ysgolion cynradd ac uwchradd, darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon, Coleg Menai, y gwasanaethau brys, canolfan y llu awyr yn Y Fali a chyflogwyr a busnesau. Ceir cysylltiadau â'r Wylfa, y cwmni alwminiwm, melin Llynon ac mae'r ysgol yn anfon cyfraniadau i'r papur bro lleol "Y Rhwyd" yn fisol.

163 Mae'r cwricwlwm yn cwrdd â holl ofynion cyfreithiol a chymeradwywyd yr holl gymwysterau'n genedlaethol. Cynhwysir addysg grefyddol yn y cwricwlwm i holl ddisgyblion a myfyrwyr. Cynhelir gwasanaeth diolchgarwch yn yr eglwys leol yn flynyddol a rhoddir ystyriaeth i wahanol grefyddau mewn addysg grefyddol.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

164 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith yn dda. Cyfranna'r rhaglen ABCh yn effeithiol i'r elfen hon. Darperir yn dda ar gyfer disgyblion a myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol drwy'r cysylltiadau cryf â darparwyr eraill a Choleg Menai. Mae disgyblion B10 a myfyrwyr B12 yn ymwneud â phrofiad gwaith a threfnir profiadau cyfweld yn CA4 drwy gysylltiad â chyflogwyr lleol. Ceir cyfraniadau effeithiol gan Gyrfa Cymru mewn partneriaeth â'r ysgol sydd wedi ennill gwobr Gyrfa Cymru ac mae lleoli athrawon wedi gwella'r ddarpariaeth gwricwlaidd.

165 Mae'r profiadau dysgu i hyrwyddo sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn rhagorol. Yn CA4, rhaid i'r disgyblion astudio dau bwnc arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn CA3, mae darpariaeth ddwys ar gael yn ôl yr angen i sicrhau fod disgyblion yn hyderus yn y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn fedrus iawn yn ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn dda yn yr ysgol.

166 Caiff yr holl ddysgwyr gyfleodd i ddysgu am amddifadedd cymdeithasol a stereoteipio, yn bennaf drwy'r rhaglen ABCh. Mae mynediad a chyfle cyfartal i bob pwnc i'r holl ddysgwyr gwaeth beth yw cefndir neu allu corfforol. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

167 Hyrwyddir addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda yn yr ysgol ac mae'n nodwedd dda. Mae gan yr ysgol drefniadau i ailgylchu papur a phlastig. Cyfranna llawer o adrannau i hyn. Bu disgyblion yn ymwneud â phlannu coed ym melin Llynon ac mae'r ysgol ar lefel 6 gwobr Ysgolion Iach. Cynhelir amgylchedd yr ysgol i safon uchel. Ni welwyd bron ddim sbwriel yn ystod wythnos yr arolygiad. Mae'r testun hwn yn rhan o gwricwlwm ABCh.

168 Mae datblygiad sgiliau entrepreneuraidd yn dda yn CA3 ac yn rhagorol yn CA4 a'r chweched dosbarth. Yn CA3, mae disgyblion yn ymwneud â phrosiect "Dynamo" sy'n rhoi profiadau gwerthfawr iddynt. Mae disgyblion B10 yn ymwneud â her "Brynmawr" sy'n golygu sefydlu a rhedeg busnes. Astudia myfyrwyr y chweched dosbarth y sgil hon fel rhan o gwrs CBC. Datblyga'r gwahanol gyrsiau galwedigaethol a chyfleodd profiad gwaith yr agwedd hon ymhellach. Cyfoethoga'r gweithgareddau hyn y profiadau cwricwlaidd i'r holl ddysgwyr.

169 Mae arwyddair yr ysgol 'Hau i Fedi' yn werthfawr i gwrdd â pharatoi anghenion disgyblion a myfyrwyr i fod yn ddysgwyr gydol oes. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael drwy wahanol fentrau a phrofiadau a ddarperir yn nodwedd ragorol o'r

cwricwlwm. Mae'r gwaith a wneir gan yr hyfforddwyr dysgu a'r tiwtoriaid dosbarth, sy'n ymgymryd â swyddogaeth hyfforddwr dysgu, yn datblygu'r gwaith hwn ymhellach, yn hyrwyddo hyder y dysgwyr, ac yn datblygu eu gallu i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn Ysgol Uwchradd Bodedern yn rhagorol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

170 Mae'r radd hon yn cyfateb i'r radd yn hunan arfarniad yr ysgol.

171 Mae Ysgol Bodedern yn ysgol gynhwysol sy'n darparu gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd rhagorol i'w holl ddisgyblion. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys :

- lefel uchel iawn o gefnogaeth gan bron pob aelod o staff;
- rhaglen ABCh o ansawdd uchel wedi'i chynllunio'n dda a'i chyfoethogi gan gyfraniadau gwerthfawr oddi wrth amrywiol asiantaethau cefnogol ac arbenigwyr;
- cefnogaeth effeithiol iawn i ddisgyblion gan gynorthwywyr cefnogi dysgu gwybodus ac effeithiol;
- hyrwyddo iechyd da; a
- darpariaeth cyfle cyfartal cynhwysfawr ac effeithiol iawn.

Ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd i ddysgwyr

172 Mae i ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd lawer o nodweddion rhagorol. Mae gan bron pob pennaeth blwyddyn, rheolwyr canol, tiwtoriaid dosbarth, hyfforddwyr dysgu, cynorthwywyr cefnogi dysgu a gweithwyr cefnogi rôl allweddol wrth reoli gofal disgyblion.

173 Mae cysylltiadau da gyda rhieni. Mae'r ysgol yn annog rhieni'n gryf i ymweld â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'u plant. Mae'r llyfrau cartref-ysgol yn darparu gwybodaeth glir am waith disgyblion a'r cynnydd a wnânt.

174 Mae trefniadau rhagorol i helpu disgyblion newydd i setlo yn yr ysgol. Gweithia'r ysgol yn agos gyda'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i gefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd, a darpara raglen o weithgareddau sefydlu gynhwysfawr wedi'i chynllunio'n dda i'w helpu i setlo yn eu hamgylchedd newydd. Derbynia rhieni wybodaeth fanwl am bob agwedd o fywyd yr ysgol, disgwyliadau a gweithgareddau.

175 Gwna'r cyngor ysgol gyfraniad cadarnhaol i fywyd yr ysgol. Ystyria'r aelodau mewn modd aeddfed ac maent wedi adnabod a blaenoriaethu gwahanol faterion y tybiant fydd yn cyfrannu at wella'r ysgol a lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r dewisiadau mewn prydau bwyd, creu system wobrwyo i wella presenoldeb ac awgrymu dulliau o atal bwlio. Gwrandewir ar farnau'r cyngor ysgol a gweithredir arnynt yn effeithiol.

176 Derbynia'r holl ddisgyblion gyfarwyddyd rhagorol wrth iddynt ddringo drwy'r ysgol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud dewisiadau clir a gwybodus ynglŷn â pha bynciau i'w dilyn yn CA4. Derbynia pob disgybl gyfarwyddyd a chefnogaeth

o'r ansawdd uchaf i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus. Mae asiantaethau cefnogi perthnasol, ynghyd â staff yr ysgol, yn eu helpu i wneud penderfyniadau personol pwysig.

177 Derbynia pob disgybl raglen addysg gyrfaoedd berthnasol yn unol â 'Fframwaith ar gyfer Addysg Yrfaol a Chyfarwyddyd'. Darperir y rhaglen gan Gyrfa Cymru ac mae asiantaethau eraill yn gefnogol a derbynia pob disgybl gyngor a chyfarwyddyd o ansawdd da. Caiff pob disgybl fynediad i gyfleuster ar-lein Gyrfa Cymru a gwnânt ddefnydd da ohoni.

178 Caiff bron pob disgybl eu monitro'n dda gan dîm o diwtoriaid dosbarth effeithlon, a gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o wasanaeth cefnogi arbenigol yn y gwersi ABCh. Mae'r gwersi ABCh hefyd yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr addysg iechyd a ffitrwydd corfforol.

179 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA4 yn cymryd cyfrifoldeb am adnabod eu llwybrau i'r dyfodol yn CA4. Rhydd yr hyfforddwyr dysgu a staff gyrfaoedd gefnogaeth ragorol i geisiadau am fynediad i sefydliadau addysg bellach ac uwch ac yn eu rheolaeth o amser a chyflwyno gwaith. Mae hyn yn nodwedd ragorol, sy'n helpu i ddatblygu annibyniaeth yn y disgyblion a'r myfyrwyr.

180 Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o TGCh i olrhain a monitro cynnydd, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Mae polisïau a gweinyddiad presenoldeb disgyblion yn elfennau cryf. Nodir patrymau ymddygiad a defnyddir y wybodaeth a gesglir yn effeithiol i adnabod dulliau o ymdrin ag unrhyw faterion. Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn harneisio cydweithrediad y disgyblion wrth barhau i wella lefelau presenoldeb. Mae'r cofnodion yn cwrdd yn llawn â Chylchlythyr 3/99 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag mae anghysonderau yn ansawdd cydweithrediad monitro perfformiadau disgyblion B8/9 gan y rheolwr canol. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddir ffeiliau cynnydd disgyblion yn effeithiol i fonitro perfformiadau ac adnabod cyflawniad.

181 Mae polisïau a threfniadau priodol sy'n cyfrannu at ddiogelu lles yr holl ddisgyblion. Mae hybu iechyd da yn nodwedd ragorol o fewn darpariaeth ABCh yr ysgol, sy'n cynnwys lles emosiynol, bwyta'n iach ac ymwybyddiaeth o beryglon alcohol a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r ystod o weithgareddau chwaraeon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddod yn ffit a'u helpu i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at les. Darpara hyfforddwyr dysgu gyfarwyddyd rhagorol i ddisgyblion yn unol ag agenda Llwybrau Dysgu (14-19). Darpara cynorthwywyr dysgu'r ysgol glwb gwaith cartref cefnogol a chymerant ran weithredol yn y clybiau ar ôl ysgol. Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant a gweithdrefnau ar gyfer archwilio cefndir a recriwtio staff. Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar mewn amddiffyn plant.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

182 Mae i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA lawer o nodweddion rhagorol.

183 Defnyddia'r ysgol y wybodaeth o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i gynllunio cefnogaeth a darpariaeth briodol i'r disgyblion. Caiff hyn ei gryfhau gan wybodaeth berthnasol gan asiantaethau allanol a thrwy ddefnydd priodol o brofion darllen ar fynediad y disgyblion i'r ysgol. Mae clybiau boreol wedi'u trefnu'n dda i gefnogi disgyblion sydd angen help ychwanegol mewn rhifedd a llythrennedd. Cânt eu mynychu'n dda a'u trefnu'n effeithlon gan dîm effeithiol o gynorthwywyr cefnogi dysgu.

184 Mae'r Cydlynydd AAA (CAAA) wedi cynhyrchu dogfen gynhwysfawr sy'n rhoi syniadau ac awgrymiadau i staff ar sut i gynllunio ac addasu gwaith i ateb ystod eang gofynion disgyblion ag AAA yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn sicrhau fod y gweithgareddau'n cyd-fynd â nodau'r wers a bod pob disgybl yn derbyn y lefel briodol o gefnogaeth gynhwysol. Mae cynlluniau addysg unigol (CAU) y disgyblion yn cynnwys gwybodaeth glir i helpu cynllunio strategaethau addas a thargedau i wella dysgu. Adolygir y CAU bob tymor.

185 Darperir pecyn gwybodaeth cynhwysfawr i'r rhieni, ynghyd â thasgau priodol a gweithgareddau i ddisgyblion ag AAA yn unol â'u gallu.

186 Dengys cynorthwywyr cefnogi dysgu'r ysgol wybodaeth ragorol am sut i gefnogi disgyblion, yn unigol, neu o fewn grwpiau bychain. Maent yn sicrhau fod disgyblion yn cyfrannu'n llawn i'r gwersi a'u bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae'r CAAA yn cyfarfod â'r cynorthwywyr cefnogi dysgu sydd â chyfrifoldeb am dimau blwyddyn penodol er mwyn monitro'r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ag AAA. Mae hyn yn caniatáu i staff ail-werthuso targedau ac addasu strategaethau yn ôl y galw.

187 Rhydd yr ysgol gefnogaeth a darpariaeth wedi'i gynllunio'n dda i'r disgyblion hynny ag anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia, yn seiliedig ar ddadansoddiad arbenigol o anghenion disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol iawn o asiantaethau allanol i sicrhau cefnogaeth briodol o ansawdd uchel i ddisgyblion ag AAA.

188 Darpara'r ysgol gwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda yn CA4 drwy ddarpariaeth cyrsiau addas ASDAN. Mae llawer o ddisgyblion ag AAA yn ennill cymwysterau ar amrywiol gyrsiau a gwnânt drosglwyddiad llwyddiannus i gyrsiau addysg bellach.

189 Mae gan yr ysgol bolisi clir i reoli a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'r holl staff a'r disgyblion yn ymwybodol o ymateb fesul cam yr ysgol i unrhyw ymddygiad annerbyniol. Mae'r rhain yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at sefydlu ethos o barch y naill i'r llall drwy'r ysgol. Mae gweithwyr cynnal yr ysgol yn darparu cyngor rhagorol i ddisgyblion.

190 Mae cydlynydd cynhwysiad yr ysgol a'r gweithwyr cynnal yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at adnabod strategaethau i ymdrin ag ymddygiad amhriodol disgyblion, a thrwy gael y disgyblion eu hunain i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i'r problemau. Darparant gefnogaeth ragorol i ail-gyfannu'r disgyblion hynny a waharddwyd am gyfnod penodol.

191 Mae'r ysgol yn cynnal noson agored yn flynyddol i rieni lle'r esbonnir yn llawn y ddarpariaeth a'r defnydd o adnoddau ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth lawn i rieni am gynnydd eu plentyn.

192 Mae llywodraethwr enwebedig yn monitro'r ddarpariaeth AAA yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn cwrdd â'r gofynion statudol ac yn bodloni'n llawn Cod Ymarfer AAA i Gymru.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal

193 Mae i'r ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal nodweddion rhagorol. Mae cynnwys pob disgybl, beth bynnag eu cefndir cymdeithasol neu ieithyddol ym mywyd a gweithgareddau'r ysgol yn rhagorol. Dengys bron pob aelod o staff sensitifrwydd ac empathi wrth gwrdd ag anghenion disgyblion.

194 Sefydlodd yr ysgol weithdrefnau effeithiol iawn i adnabod a mynd i'r afael ag amrywiaeth cefndir disgyblion, yn arbennig y rhai dan ofal yr awdurdod lleol a'r rhai sy'n gofalu am aelodau eu teulu. Mae pob disgybl â mynediad i adnoddau yn ystod yr awr ginio pryd y medrant wneud gwaith cartref. Mae'r gefnogaeth hon yn arbennig o ddefnyddiol i ddisgyblion ag AAA a'r disgyblion hynny nad oes ganddynt fynediad i TGCh yn y cartref.

195 Mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydlog i adnabod disgyblion mwy galluog a thalentog a threfnir darpariaeth drwy weithgareddau wedi eu cynllunio'n briodol i ateb eu gofynion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol eto wedi ffurfioli ychydig o'i gweithdrefnau yn y cyd-destun hwn.

196 Dysga'r disgyblion bwysigrwydd parchu gwahanol gredoau, hiliau a diwylliannau drwy ABCh a gwasanaethau ysgol. Caiff agweddau ar amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol eu cynnwys mewn gwersi megis addysg grefyddol a gwasanaethau boreol. Mae'r rhain yn darparu sylfaen gadarn i hyrwyddo cytgord hiliol, a pharchu gwahanol ddiwylliannau a ffyrdd o fyw.

197 Mae pob gweithgaredd ar gael i fechgyn a merched ac nid oes enghreifftiau o stereoteipio o fewn darpariaeth yr ysgol.

198 Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer atal bwlio a gweithdrefnau rhagorol i ymdrin â materion yn ymwneud ag ymddygiad gormesol. Mae amryw o hysbysfyrddau o amgylch yr ysgol yn hysbysu disgyblion o'r gwahanol wasanaethau cefnogi ar gael iddynt yn yr ysgol ac yn y gymuned. Cefnogir y polisi gwrth-fwlio yn dda gan y cyngor ysgol a berswadiodd yr ysgol i osod 'bocs bwlio' sy'n caniatáu disgyblion i roi gwybod am ddigwyddiadau'n anhysbys.

199 Mae'r ysgol wedi cael ei hadeiladu at y pwrpas ac yn hygyrch i'r holl ddisgyblion ac eraill ag anableddau. Mae'r ysgol yn cwrdd yn llawn â gofynion Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a Chynllun Gweithredu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

200 Dyfarnodd yr ysgol radd 2 yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Dyfarnodd y tîm arolygu un radd uwch oherwydd :

- arweinyddiaeth ddynamig y pennaeth a'i UDA;
- llinellau cyfathrebu clir a gwerthoedd sy'n cael eu rhannu gan bawb sydd â chysylltiad â'r ysgol;
- monitro a gwerthuso perfformiad trwyadl gan y timau uwch a chanol; a
- blaenoriaeth uchel i fentrau cenedlaethol a phartneriaethau.

201 Mae'r radd a ddyfarnwyd un radd yn uwch na'r radd a ddyfarnwyd i Gwestiwn Allweddol 1 oherwydd nad yw nodweddion rhagorol rheolaeth wedi effeithio'n llawn ar safonau o fewn yr ysgol.

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel

202 Mae'r modd y gwneir amcanion a disgwyliadau'r ysgol yn glir i'r holl staff, disgyblion ac ymwelwyr yn nodwedd ragorol. Mae bron y cyfan o'r amcanion a'r

nodau yn weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae pob un sy'n ymwneud â'r ysgol wedi'u hymrwymo i'r amcanion hyn. Mae llinellau cyfathrebu eithriadol o glir yn amlwg ar bob lefel ac mae pob aelod o staff yn atebol i'w rheolwr llinell priodol a'r pennaeth am eu gweithredoedd.

203 Datblygodd yr ysgol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf drwy arweinyddiaeth ragorol y pennaeth. Mae'n barod i wneud a gweithredu penderfyniadau anodd i godi safonau yn yr ysgol. Gweithia'n dda iawn gyda'i UDA, rheolwyr canol a'r corff llywodraethol. Arweinia gyda gweledigaeth, gan roi cyfeiriad strategol clir ac mae'n ddylanwadol iawn yn hyrwyddo gwerthoedd cymunedol yr ysgol drwy esiampl. Mae hi a'r UDA wedi symud yr ysgol ymlaen a chael y staff a chymuned yr ysgol i'w dilyn mewn amser byr iawn. Mae safonau wedi gwella'n gyson o dan ei harweinyddiaeth.

204 Mae gan yr UDA bresenoldeb amlwg iawn o gwmpas yr ysgol. Cefnogir aelodau'r tîm yn dda iawn gan bron bob pennaeth blwyddyn.

205 Mae gweithdrefnau rhagorol i fonitro perfformiadau unigolion a thimau. Bron ym mhob achos, mae ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel yn ffactor arwyddocaol wrth godi safonau. Mae rhinweddau arweinyddiaeth yr holl reolwyr yn hysbys i'r UDA a chymerir camau priodol i wella tangyflawniad. Mae pob aelod o'r UDA gan gynnwys y pennaeth wedi'u cysylltu â chyfadran neu grwpiau o adrannau ac mae'r cysylltiadau rheoli hyn yn effeithiol iawn. Cynllunnir adolygiadau o gyfadrannau ac adrannau yn systematig a darparu gwybodaeth fanwl am berfformiad.

206 Mae'r ysgol wedi bod yn rhoi ystyriaeth ac yn parhau i roi ystyriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol. Gwna'r arweinwyr a'r rheolwyr gynnydd da wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau LICC. Mae'r cynnydd a wnaed yn y CBC yn y chweched dosbarth a mentrau Llwybrau Dysgu 14-19 yn CA4 yn nodedig. Mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn un o'r ychydig iawn o ysgolion yng Nghymru sy’n agos i gyrraedd lefel 6 menter Ysgolion Iach. Mae cymryd rhan yn y mentrau hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar safonau yn y medrau allweddol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddwyieithrwydd.

207 Mae'r ysgol yn sicrhau datblygiad proffesiynol staff addysgu, gweinyddol a thechnegol yn unol ag anghenion yr unigolyn a'r ysgol. Rhoddir anogaeth gref i aelodau'r staff ymgymryd â datblygiad proffesiynol. Rhennir deilliannau datblygiad proffesiynol parhaus o fewn adrannau, a lle mae'n berthnasol, ar lefel ysgol gyfan i godi safonau.

208 Mae aelodau o'r staff yn rhannu arfer addysgu da ymysg ei gilydd. Lle caiff arfer dda ei adnabod, fe'i rhennir gyda'r holl staff. Mae'r agweddau hyn ar y cyd yn nodweddion cryf.

209 Mae gan yr ysgol system rheoli perfformiad o ansawdd da wedi'i sefydlu'n gadarn ac sy'n berthnasol i bob aelod o staff addysgu, cefnogi, technegol a gweinyddol.

210 Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Caiff pawb yn yr ysgol eu parchu ac mae ganddynt oll gyfraniad sy'n cael ei werthfawrogi.

Pa mor dda y mae'r llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau

211 Gwna'r corff llywodraethol gyfraniad da i arweinyddiaeth yr ysgol.

212 Mae'n cynnwys aelodau medrus a phrofiadol iawn sydd wedi cefnogi'r ysgol dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, dim ond ers blwyddyn y mae tri chwarter y corff llywodraethol wedi bod yn aelodau. Mae arbenigedd y corff wedi datblygu'n gyflym mewn amser byr. Defnyddir sgiliau proffesiynol unigol yn effeithiol, nid yn unig yng ngwaith y corff llywodraethol ond hefyd i wella dimensiwn cwricwlaidd a chymunedol yr ysgol.

213 Mae athroniaeth y llywodraethwyr o barch tuag at bawb a gweithio mewn partneriaeth gyda rheolwyr uwch, canol a staff eraill, yn ffactor allweddol mewn codi safonau. Maent wedi cefnogi'n llawn y penderfyniadau anodd y bu raid i'r pennaeth eu gwneud.

214 Mae gan y corff llywodraethol ddisgwyliadau uchel o'r ysgol. Mae gan bob aelod ddealltwriaeth glir o brif flaenoriaethau'r ysgol drwy weithrediad effeithiol strwythur yr is-bwyllgorau. Mae cadeirydd y llywodraethwyr a chadeiryddion yr is bwyllgorau'n sicrhau fod y pwyllgorau hyn yn gweithredu er budd yr ysgol.

215 Dealla'r llywodraethwyr eu rôl yn glir a gweithredant fel ffrindiau beirniadol mewn modd effeithiol. Maent wedi eu hysbysu'n dda am bob agwedd o berfformiad yr ysgol a derbyniant adroddiadau rheolaidd a manwl gan y pennaeth.

216 Mae bron pob llywodraethwr wedi'i gysylltu â chyfadran ac adrannau. Mae bron pob llywodraethwr yn mynychu cyfarfodydd gyda rheolwyr cyfadran ac arsylwant mewn dosbarthiadau yn yr adrannau o fewn eu cyfadran gyswllt mewn dull cefnogol.

217 Mae'r llywodraethwyr yn ymwneud yn effeithiol â rheolaeth strategol yr ysgol. Mae ansawdd eu rheolaeth strategol a'u hymwneud â'r prosesau arfarnu yn nodweddion da. Mae'r trafodaethau yn fanwl a heriol. Gweithredant fel seinfwrdd i'r pennaeth. Ymdrecha'r llywodraethwyr i sicrhau fod disgyblion a myfyrwyr yn derbyn yr addysg orau posibl.

218 Ymdrecha'r llywodraethwyr i sicrhau gwerth am arian o holl weithdrefnau ac ymarferion.

219 Mae prosbectws yr ysgol yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

220 Bodlonir holl ofynion rheoleiddiol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

221 Dyfarnodd yr ysgol radd 2 yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Dyfarnodd y tîm arolygu un radd yn uwch oherwydd rhagoriaeth yn y/yr :

- perthnasoedd rhwng yr UDA a'r tîm rheoli canol (TRhC)
- arfarniad o gryfderau'r ysgol ac ardaloedd ar gyfer gwelliant;
- adroddiadau hunan arfarnu manwl gan reolwyr uwch a chanol;
- monitro traws gwricwlaidd o flaenoriaethau ysgol-gyfan;
- modd y perchir, y gwrandewir ac yr ystyrir barnau staff a disgyblion; a
- camau a gymerwyd i sicrhau y delir â diffygion yn effeithiol.

Pa mor effeithiol y caiff perfformiad yr ysgol ei fonitro a'i arfarnu

222 Barn gyffredinol y tîm yw bod yr ysgol wedi tanbrisio ei llwyddiant. Dyfarnodd y tîm radd 1 i gwestiynau 5 a 6 tra dyfarnodd yr ysgol radd 2 iddi ei hun.

223 Barnodd y tîm fod y graddau uwch yn haeddiannol oherwydd ansawdd ragorol yr arweinyddiaeth a manylder y system hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r nodweddion hyn wedi arwain at welliannau mewn safonau bron ymhob maes cwricwlaidd.

224 Mae hunan arfarnu wedi'i sefydlu'n dda ac wedi gwreiddio ym mywyd yr ysgol.

225 Mae arweinwyr a rheolwyr wedi'u hysbysu'n dda am yr ardaloedd y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt.

226 Mae ansawdd y cyswllt rhwng aelodau'r UDA a chlwstwr adrannau yn rhagorol. Mae'r cyfarfodydd wythnosol rhwng yr UDA a'r holl TRhC sy'n cael eu cofnodi, a'r cyfarfodydd rhwng rheolwyr canol unigol a'u haelod cyswllt o'r UDA, yn sicrhau cysondeb ar draws yr adrannau ac yn darparu cyfloed gwerthfawr ar gyfer lledaenu a thrafod blaenoriaethau addysgol.

227 Mae ansawdd y monitro a ymgymerir gan yr UDA a'r TRhC yn dda iawn. Cynhelir monitro trawsgwricwlaidd ysgol-gyfan yn dymhorol a dosberthir adroddiadau ysgrifenedig o'r darganfyddiadau i holl aelodau'r TRhC i'w gweithredu ar lefel adrannol. Cyfyd pynciau i'w monitro o hunan arfarniad, trafodaethau UDA a TRhC a'r prif ffocws yw ar godi safonau ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

228 Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl a thrylwyr o ansawdd uchel yn amlinellu perfformiad yr ysgol yn erbyn y saith cwestiwn allweddol a ddefnyddir yn arweiniad Estyn. Mae'n drylwyr ac arfarnol, yn nodi'n glir gryfderau ac ardaloedd i'w datblygu. Mae adroddiadau hunan arfarnu adrannol hefyd yn ddogfennau gwerthfawr sy'n dadansoddi sefyllfa gyfredol yr adrannau'n fanwl.

229 Gwneir pob ymdrech i gael barn disgyblion, rhieni a staff a pherchir eu barn. Cafodd materion a godwyd ganddynt, megis strategaethau i wella presenoldeb, eu cynnwys yn y CGY. Roedd yr holiaduron rhieni (260) yn gefnogol iawn o'r ysgol. Roedd 96% yn hapus â chynnydd eu plant a 95% yn hapus ag ansawdd yr addysg a ddarparwyd gan yr ysgol.

230 Mae'r ethos o barch a gwerth a ddangosir gan aelodau'r UDA i'r holl weithlu yn nodwedd ragorol.

231 Mae llywodraethwyr unigol wedi'u cysylltu ag adrannau ac mae'r mwyafrif wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd adrannol ac wedi mynychu gwersi. O ganlyniad, mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o brosesau monitro ac adolygu'n dda.

Effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer gwelliant

232 Mae'r defnydd deallus o ddata i hysbysu cynllunio a datblygiad ar draws yr ysgol yn rhagorol. Mae cyfoeth o ddata ar gael i aelodau'r staff yn ogystal ag hyfforddiant i athrawon newydd, i sicrhau gwerthusiad da iawn a chynhwysfawr o ganlyniadau arholiadau. Mae trafodaethau rhwng adrannau a'r pennaeth yn arwain at osod targedau realistig ond heriol i wella perfformiad disgyblion. Mae ansawdd y targedau'n rhagorol.

233 Mae'r CGY a'r cynlluniau datblygu adran (CDA) o ansawdd da iawn. Maent wedi eu cysylltu'n agos â'r broses hunan arfarnu. Mae hyn yn nodwedd dda. Mae materion ar gyfer datblygu a nodir yn y ddogfen hunan arfarnu yn cael eu cynnwys yn gyson a rheolaidd yn y CGY.

234 Yn ychwanegol at y CGY manwl iawn sy'n cynnwys blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, cynhyrchodd y pennaeth ddogfen waith grynodol, sy'n sicrhau fod y ffocws yn ystod y cyfarfodydd rheoli wythnosol bob amser yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau. Mae hyn yn ymarfer da rhagorol.

235 Adlewyrcha'r CDA flaenoriaethau ysgol-gyfan yn ogystal ag anghenion pynciol penodol a meysydd a nodwyd drwy hunan arfarniad. Mae'r cynlluniau'n cynnwys meini prawf llwyddiant a chostau.

236 Rhennir arfer dda mewn dysgu ac addysgu ymysg y staff mewn cyfarfodydd a drefnir gan y dirprwy bennaeth. Mae hyn yn nodwedd dda. Mae hyfforddiant mewn-swydd o ansawdd uchel o fewn yr ysgol ac yn y sir yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynllunio ar gyfer gwelliant.

237 Mae'r cynnydd a wnaed wrth ymateb i'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn rhagorol. Dengys safonau mewn Saesneg a TGCh yn CA3 a gwyddoniaeth yn CA3 a CA4, addysg gorfforol yn CA4 a'r chweched dosbarth welliant amlwg.

238 Caiff disgyblion o allu is gefnogaeth ychwanegol drwy glwb darllen, clwb rhifedd a chlwb gwaith cartref. Mae'r ysgol wedi cyflogi cynorthwywyr cefnogi dysgu ychwanegol, a chynhyrchwyd adnoddau ychwanegol i wella sillafu disgyblion. Mae'r gwelliant helaeth mewn perfformiad mewn arholiadau allanol yn CA4, yn arbennig yn 2009, yn dangos fod y strategaethau'n cael effaith cadarnhaol ar safonau.

239 Mae hunan arfarnu yn awr yn broses gyda mwy o ffocws, yn canolbwyntio ar wella perfformiad disgyblion mewn arholiadau a safonau addysgu a dysgu.

240 Mae presenoldeb wedi gwella'n amlwg ac mae ymddygiad dysgwyr yn rhagorol. Rhoddwyd sylw i'r holl faterion iechyd a diogelwch a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf.

241 Mae medrau allweddol wedi datblygu'n dda ers yr adroddiad diwethaf.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

242 Mae'r radd hon yn cyfateb i'r radd yn hunan arfarniad yr ysgol.Mae'n cyfateb i'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1, ond un radd yn is na'r radd a ddyfarnwyd i Gwestiwn Allweddol 5. Mae hyn am na nododd y tîm unrhyw nodweddion rhagorol yn y modd y mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau. Nid yw ansawdd rhagorol yr arweinyddiaeth prin eto wedi cael effaith llawn ar rai agweddau o reolaeth adnoddau.

Digonolrwydd, addasrwydd a defnydd o staff adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd

243 Cyfloga'r ysgol ddigon o staff profiadol wedi'u cymhwyso'n dda. Fe'u lleolir yn effeithiol fel y caiff pob disgybl fynediad i addysgu o ansawdd da. Penodwyd

ychydig o athrawon, sydd ag arbenigedd mewn amryw o feysydd, yn benodol i addysgu mewn dau faes pynciol.

244 Mae digon o staff cefnogi medrus i sicrhau fod yr ysgol yn cael ei gweinyddu'n effeithlon. Darpara nifer fawr o gynorthwywyr cefnogi dysgu gefnogaeth effeithiol iawn i ddisgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r modd y gweithiant ar y cyd gydag athrawon dosbarth yn arbennig o effeithiol. Mae'r hyfforddwyr dysgu'n darparu cefnogaeth eithriadol i fyfyrwyr yn ddyddiol yn y ganolfan adnoddau.

245 Ail-fodelwyd y gweithlu yn unol â'r gofynion statudol. Gweithredwyd y gofynion parthed cytundeb amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA). Defnyddir yr amser yn effeithiol, yn arbennig ar gyfer cynllunio pwrpasol o fewn adrannau. Gwriwyd yr holl athrawon gan Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn unol â pholisi'r AU.

246 Mae digon o lyfrau ac adnoddau materol eraill i gefnogi addysgu'r cwricwlwm. Dyrennir cyllid digonol i ardaloedd cwricwlaidd drwy fformiwla deg a thryloyw. Mae darpariaeth TGCh yn rhagorol. Ychwanegir at y nifer fawr o gyfrifiaduron bwrdd-gwaith gan setiau o liniaduron fel y caiff yr holl ddisgyblion ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio'u sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae byrddau gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth ond un ac fe'u defnyddir yn dda gan athrawon i ysgogi a symbylu eu disgyblion.

247 Mae cyflenwad da o ffuglen yn y ddwy iaith yn y llyfrgell ac mae'n cael ei rheoli'n dda gan y llyfrgellydd. Mae disgyblion yn benthyca nifer sylweddol o lyfrau. Derbynia'r llyfrgell gyllid digonol. Fodd bynnag, nid oes digon o lyfrau cyfair ac mae hyn yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y llyfrgell i ddisgyblion wneud ymchwil personol.

248 Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr. Fe'u rheolir a'u cynnal yn dda iawn gan ofalydd a rheolwyr yr adeiladau. Darpara leoliad da ar gyfer dysgu ac addysgu.

Pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian

249 Mae'r gwariant ar weithwyr cyflogedig yn gymharol uchel, ond mae staffio'r cwricwlwm yn flaenoriaeth uchel i'r ysgol. Rheolir aelodau'r staff yn dda i sicrhau fod yr adnodd gwerthfawr hwn yn rhoi gwerth am arian. Bu gwelliant sylweddol mewn safonau ers yr arolygiad diwethaf drwy ddefnydd effeithiol o'r gweithlu. Yn yr un modd, mae cyflogi nifer fawr o gynorthwywyr cefnogi dysgu wedi profi'n fuddiol oherwydd y cyfraniad allweddol a wnânt yn cefnogi'r nifer fawr o ddisgyblion ag AAA.

250 Mae strategaeth glir y pennaeth yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o staff presennol. Dechreua'r broses o osod y gyllideb drwy ddadansoddiad manwl o gostau cyfredol, ynghyd â goblygiadau unrhyw ddarpariaeth newydd a gynllunnir. Mae rheolwyr yr ysgol yn llwyr ymwybodol o gostau llawn holl agweddau darpariaeth yr ysgol.

251 Mae'r pennaeth a'r swyddog gweinyddol yn ymchwilio'n fanwl iawn i'r atebion mwyaf cost effeithiol ar gyfer blaenoriaethau gwariant yr ysgol, er enghraifft, drwy drefniadau tendro lleol. Drwy fonitro a rheolaeth ofalus o'r gyllideb llwyddodd i wneud arbedion sylweddol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi crynhoi digon o gronfa wrth gefn i sicrhau ei bod mewn sefyllfa ariannol gadarn.

252 Mae costau staffio yn y chweched dosbarth yn rhesymol ac nid yw'r ddarpariaeth yn y chweched dosbarth yn gymorthdaledig gan arian a fwriadwyd ar gyfer y ddarpariaeth yn CA3 a CA4. O ystyried y safonau a gyflawnir, mae'r chweched dosbarth yn rhoi gwerth da iawn am arian.

253 Cynllunnir datblygiad proffesiynol y staff mewn dull effeithiol. Mae'n nodwedd amlwg o fewn yr ysgol. Dadansoddir yr anghenion hyfforddi'n ofalus ac fe'u diwellir mewn amryw o ffyrdd cost effeithiol. Cyfranna'r ysgol tuag at nifer o drefniadau consortiwm cryf sy'n cynllunio a threfnu hyfforddiant i staff addysgu. Darpara'r ysgol hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ragorol i gynorthwywyr cefnogi dysgu. Mae hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn darparu cefnogaeth dda iawn yn y dosbarth. Mae trefniadau priodol ar gyfer anwytho athrawon sydd newydd gymhwyso ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol cynnar. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'i chyllideb hyfforddi gyfyngedig.

254 Mae rheolaeth ariannol yn dda. Mae'r swyddog gweinyddol yn rheoli gwariant mewn modd gofalus iawn. Mae'r trefniadau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol yn gadarn iawn. Roedd yr archwiliad ariannol diwethaf yn ffafriol iawn ac ni chodwyd unrhyw faterion. Mae'r pennaeth a'r swyddog gweinyddol yn cyfarfod yn wythnosol i fonitro gwariant a gwirio fod y gwariant yn cyd-fynd â'r cynllunio.

255 Mae'r ysgol yn adolygu ei blaenoriaethau gwariant yn flynyddol ac yn amlinellu'r rhain yn ei CGY. Mae'r ysgol yn dyrannu cyllid digonol i gefnogi'r blaenoriaethau hyn. O ystyried y safonau a gyflawnir a'r modd gofalus y mae'r ysgol yn dyrannu ei gwariant mae'n cynnig gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Saesneg

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 4: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Chweched dosbarth: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig

256 Roedd canlyniadau arholiadau TGAU mewn iaith a llenyddiaeth Saesneg yn 2008 yn is na'r cyfartaleddau'r AU a Chymru ar gyfer graddau A*-C, er bod y tueddiad at gynnydd. Roedd canran y disgyblion a enillodd raddau A*/A mewn llenyddiaeth yn uwch na'r lefelau ar gyfer yr AU a Chymru.

257 Yn 2009, roedd y canlyniadau mewn Iaith Saesneg yn uwch na lefelau'r AU a Chymru. Mae'r canlyniadau'n cymharu'n dda iawn â disgyblion o allu tebyg. Roedd y canran a gyflawnodd raddau A*/A yn is na lefelau'r AU a Chymru. Mewn llenyddiaeth, mae'r canlyniadau'n is na lefelau'r AU a Chymru. Fodd bynnag, mae'r canran a lwyddodd i ennill graddau A*/A yn uwch na lefelau'r AU a Chymru.

258 Roedd canlyniadau arholiadau lefel Uwch yn is na'r AU a Chymru yn 2008. Bu gwelliant yn 2009.

CA3

Nodweddion da

259 Mae agweddau bron pob un disgybl tuag at eu gwaith yn gadarnhaol. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n bwrpasol ac yn barod i ymateb ar lafar i gwestiynau'r athrawon a'u cyd ddisgyblion mewn iaith briodol.

260 Dengys bron pob disgybl wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn adalw gwybodaeth, yn disgrifio, esbonio a chyflwyno syniadau. Mae disgyblion galluog yn gofyn cwestiynau ac yn cyfiawnhau penderfyniadau.

261 Mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod eang o ffuglen, deunydd ffeithiol a barddoniaeth. Mae'r rhan fwyaf yn darllen ar goedd yn gywir a llithrig. Darllena llawer â mynegiant. Darllena'r rhan fwyaf er pleser gan wneud sylwadau meddylgar ar yr hyn a ddarllenant. Gwna disgyblion ag AAA gynnydd da.

262 Mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n helaeth mewn ystod o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau. Mae bron pob un yn gwella eu hysgrifennu drwy wybodaeth o'r meini prawf, defnyddio modelau ac wrth gynllunio a drafftio. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfleu naws ac awyrgylch, mynegi teimladau, cyflwyno safbwynt a dangos empathi tuag at gymeriadau mewn testunau gosod. Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag AAA gynnydd da.

Diffygion

263 Gwna lleiafrif o ddisgyblion wallau gramadegol elfennol mewn cystrawen, sillafu ac atalnodi.

264 Ychydig o gyfraniad a wna lleiafrif o ddisgyblion i drafodaethau grŵp a dosbarth.

CA4

Nodweddion da

265 Mae'r disgyblion yn arddangos sgiliau gwrando da. Ymatebant yn hyderus i'r athrawon ac i'w gilydd.

266 Cyfranna'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol mewn grwpiau gan rannu syniadau a gofyn cwestiynau. Rhydd disgyblion mwy galluog atebion manwl ac estynedig.

267 Mae safonau darllen yn dda. Dengys y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o ystod o ffuglen a deunydd ffeithiol a gwnânt hyn mewn ystod o ffurfiau a chyweiriau. Erbyn diwedd CA4, mae gallu disgyblion i ddehongli a chymharu testunau wedi datblygu'n dda. Gall disgyblion galluog gynnig dehongliadau beirniadol cadarn o destunau heriol.

268 Gall pob disgybl ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac i amrediad o gynulleidfaoedd. Mae cynllunio, drafftio, defnyddio modelau a dealltwriaeth o feini prawf llwyddiant yn gwella gwaith ysgrifenedig. Ar ei orau, mae gwaith ysgrifennu o safon dda iawn pan yw'r syniadau yn wreiddiol, y dadansoddiad yn fanwl a'r mynegiant yn gywir.

Diffygion

269 Caiff lleiafrif o ddisgyblion anhawster i gynnal gwaith pâr a grŵp a datblygu eu syniadau'n fwy manwl.

270 Mae gwallau sillafu, atalnodi a chystrawen yng ngwaith ysgrifenedig nifer o ddisgyblion o allu canolig.

Chweched dosbarth

Nodweddion da

271 Mae cyfraniadau llafar y myfyrwyr yn dda. Mae eu cyfraniadau i drafodaethau grŵp a dosbarth wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae defnydd a

dealltwriaeth dda o Saesneg safonol a thermau pynciol. Mae myfyrwyr yn y ddwy flwyddyn yn cynnig syniadau gwreiddiol, tra ystyriol, a mynegant eu barnau'n feddylgar.

272 Dengys yr holl fyfyrwyr ddealltwriaeth glir o gymeriadau, cynlluniau a themâu yn o gystal â chefndir cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol testunau gosod.

273 Mae gwaith ysgrifenedig wedi'i strwythuro'n dda ac yn gydlynol. Erbyn diwedd y cwrs, cynhyrcha'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr waith ysgrifennu wedi'i saernïo'n gelfydd, sy'n cynnwys dyfyniadau addas. Mae myfyrwyr galluog yn cynnwys dadansoddiad iaith sy'n fanwl a llawn dyfnder.

Diffygion

274 Nid oes diffygion pwysig.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 4: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Chweched dosbarth: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig

275 Mae canlyniadau arholiadau TGAU yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn debyg i'r AU ac yn uwch na Chymru ar gyfer graddau A*-C a A*/A. Cynrychiola'r canlyniadau hyn gyflawniad da i'r disgyblion

276 Mae canlyniadau arholiadau lefel Uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn debyg i gyfartaleddau lleol a chenedlaethol mewn bioleg a chemeg ond yn llai tebyg mewn ffiseg. Cynrychiola'r canlyniadau hyn gyflawniad da i fyfyrwyr bioleg a chemeg a chyflawniad boddhaol i fyfyrwyr ffiseg.

CA3

Nodweddion da

277 Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth a sgiliau adalw da o waith blaenorol. Mae eu gwybodaeth o ffeithiau gwyddonol yn dda ar draws ystod eang o destunau megis adweithiau cemegol, celloedd anifail a grymoedd.

278 Mae eu gwybodaeth o derminoleg wyddonol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda iawn.

279 Ymgymerant â gwaith ymarferol yn gymwys a diogel, gan wrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau. Gallant gasglu, defnyddio a rhoi heibio offer, gan gydweithio'n dda iawn mewn grwpiau wrth ymgymryd â'r gwaith hwn.

280 Arsylwant a mesurant yn gywir, gosod data mewn tablau a llunio graffiau o'u canlyniadau. Gallant gynllunio arbrawf a thynnu casgliadau'n dda.

281 Datblygant sgiliau megis cymharu a gwerthuso ac maent yn dysgu cymhwyso eu gwybodaeth o un cyd-destun gwyddonol i'r llall.

282 Gŵyr y disgyblion beth yw meini prawf llwyddiant wrth weithio a chyfranna hyn at eu safonau cyflawniad.

Diffygion

283 Cyflwyna lleiafrif o ddisgyblion eu gwaith yn flêr ac anhrefnus ac mae eu lluniadau gwyddonol yn wael.

284 Ni wna lleiafrif bychan o ddisgyblion gynnydd digonol yn yr amser sydd ar gael.

CA4

Nodweddion da

285 Mae gan ddisgyblion sgiliau adalw hyderus a ddealltwriaeth o waith blaenorol. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda ar draws pob agwedd o fioleg, cemeg a ffiseg.

286 Mae eu gwybodaeth o derminoleg wyddonol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda iawn. Gallant esbonio cysyniadau haniaethol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r termau'n gywir.

287 Defnyddiant a chymhwysant eu gwybodaeth i ddatrys problemau ac i wneud cysylltiadau rhwng gwyddoniaeth a chymwysiadau diwydiannol.

288 Mae eu sgiliau dehongli data, yn aml gan ddefnyddio technegau efelychiad haniaethol TGCh yn uchel. Gallant gymharu, diddwytho a thynnu casgliadau.

289 Gŵyr y disgyblion beth yw meini prawf llwyddiant a gallant werthuso ansawdd eu gwaith. Cydweithiant yn gynhyrchiol mewn grwpiau ac mae hyn cefnogi eu safonau cyflawniad.

290 Cyflawnant waith ymarferol yn drefnus a diogel. Defnyddiant offer yn gywir, arsylwi a mesur gan ddefnyddio unedau priodol, crynhoi tablau o ganlyniadau a llunio graffiau llinell yn gywir.

291 Cyflawnant waith cwrs ymarferol arholiad TGAU i safon uchel. Deallant yr angen am ddibynadwyedd a chywirdeb.

292 Cynhyrcha disgyblion ag AAA waith o safon dda.

Diffygion

293 Nid yw lleiafrif bychan o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol.

Chweched dosbarth

Nodweddion da

294 Mae gan holl fyfyrwyr bioleg a chemeg y gallu i adalw gwybodaeth yn hyderus a dealltwriaeth gadarn o gysyniadau cymhleth a haniaethol ac egwyddorion megis y defnydd o gysonion mewn hafaliadau.

295 Dysgant a defnyddiant derminoleg briodol ym mhob pwnc yn y Gymraeg neu'r Saesneg a'u defnyddio ar lafar neu'n ysgrifenedig i fynegi syniadau.

296 Datblygant ystod o dechnegau ystrywgar a gwnânt arsylwadau systematig a manwl. Trefnant a chyflwynant ddata gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys lluniadau o ansawdd da. Mae'r sylw i ofynion iechyd a diogelwch yn dda.

297 Gall myfyrwyr ddadansoddi a dehongli data i lefel uchel, a'u cefnogi gan sgiliau rhifedd da iawn. Lluniant raffiau da a gallant esbonio eu harwyddocâd.

298 Gallant gymhwyso eu dealltwriaeth ddamcaniaethol i esbonio eu gwaith ymarferol ac i ddatrys problemau. Defnyddiant fodelau gwyddonol ac efelychiadau TGCh i wella eu dealltwriaeth.

Diffygion

299 Mae gallu myfyrwyr ffiseg i adalw gwybodaeth yn llai sicr.

300 Nid yw myfyrwyr ffiseg bob amser yn cwblhau eu gwaith yn eu ffeiliau ac mae hyn yn effeithio ar ansawdd eu gwaith.

Technoleg gwybodaeth

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 4: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Chweched dosbarth: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig

301 Mae canlyniadau arholiadau TGAU yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn debyg i'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ar gyfer graddau A*-C. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn y canlyniadau yn 2009. Mae'r canlyniadau diweddaraf yn cynrychioli safonau da iawn.

302 Mae canlyniadau arholiadau safon Uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn debyg neu'n uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Cynrychiola'r canlyniadau hyn gyflawniadau cyfredol da iawn.

CA3

Nodweddion da

303 Mae pob disgybl yn gyffyrddus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd mewnol ac yn hyderus wrth we-lywio. Gall bron pob disgybl ddefnyddio'r meddalwedd o ansawdd da iawn sydd ar gael i godi safon eu gwaith.

304 Defnyddia'r holl ddisgyblion feddalwedd a chaledwedd TGCh yn hyderus a chymwys. Gallant drefnu eu gwaith ac agor, arbed ac adfer ffeiliau a dogfennau'n effeithiol.

305 Defnyddia'r holl ddisgyblion raglenni prosesu geiriau, cyhoeddiadau bwrdd-gwaith a rhaglenni cyflwyniadau i gyfleu gwybodaeth yn effeithiol a gwnânt ddefnydd da o'r rhyngrwyd i ymchwilio ystod o destunau. Gall disgyblion o bob gallu gyfuno llun a thestun i gynhyrchu dogfennau deniadol a chyflwyniadau o safon dda.

306 Mae pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag AAA, yn deall pwrpas taenlenni a chronfeydd data ac yn eu defnyddio'n hyderus i drin data, gan gynnwys rhifau. Deallant fformiwlâu syml a defnyddiant hwy mewn sefyllfaoedd cyfrifo a modelu.

Diffygion

307 Nid oes diffygion pwysig.

CA4

Nodweddion da

308 Mae bron pob disgybl yn cwblhau aseiniadau ymarferol TGCh i safon uchel ac weithiau uchel iawn. Gallant ddod o hyd i wybodaeth o amryw o ffynonellau, gan gynnwys y rhyngrwyd. Maent yn ymwybodol o fanteision ac anfanteision y defnydd o TGCh mewn cyd-destun busnes a chymunedol.

309 Mae bron pob disgybl yn gwella safon eu gwaith wrth ail-ddrafftio eu haseiniadau.

310 Mae disgyblion yn gyffyrddus a hyderus wrth we-lywio ar y rhyngrwyd mewnol. O ganlyniad, gallant ddefnyddio'r meddalwedd o ansawdd da sydd ar gael i godi safon eu gwaith.

311 Mae disgyblion yn ymarfer elfen o ddewis ac annibyniaeth wrth ddefnyddio TGCh, yn unol â'u hoed a'u datblygiad.

Diffygion

312 Nid oes diffygion pwysig.

Chweched dosbarth

Nodweddion da

313 Dengys y myfyrwyr ddynesiad trefnus a dadansoddol i ddatrys problemau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o nodweddion penodol ystod o becynnau meddalwedd a defnyddiant hyn i ddylunio a chael atebion i broblemau a chyfleu'r atebion hyn yn eglur. Cynhyrchant waith prosiect yn gyffredinol o ansawdd da iawn.

314 Mae pob myfyriwr yn ymwybodol o ddefnydd potensial TGCh mewn sefyllfaoedd busnes a chymunedol a thrafodant y manteision a'r anfanteision mewn dull dadansoddol. Gallant adnabod problemau a dewis cyd destunau priodol go iawn i ddefnyddio TGCh. Mae hyn yn caniatáu i fwyafrif y myfyrwyr gynhyrchu gwaith o safon uchel.

315 Gwna'r myfyrwyr ddefnydd da o'u cyfnod astudio i ymchwilio testunau er mwyn gwella safon eu gwaith.

316 Mae gan bob myfyriwr ddealltwriaeth dda o botensial TGCh. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o dermau a diffiniadau.

Diffygion

317 Nid oes diffygion pwysig.

Daearyddiaeth

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 4: Gradd 4 - Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Chweched dosbarth: Gradd 4 - Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig

318 Mae canlyniadau arholiadau TGAU yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn arwyddocaol is na chyfraddau cenedlaethol ar gyfer graddau A*-C a A*-A. Mae'r canlyniadau'n is na'r disgwyl i ddisgyblion o allu tebyg.

319 Nid yw cymharu canlyniadau arholiadau safon Uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chanlyniadau'r AU a Chymru yn briodol gan fod nifer y myfyrwyr dan sylw'n fychan iawn.

CA3

Nodweddion da

320 Dengys y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o leoliad a nodweddion lleoedd. Maent yn hyderus wrth leoli mannau ac ardaloedd o fewn eu cymdogaeth, Cymru a'r Eidal.

321 Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion afael da ar ystod o sgiliau daearyddol. Defnyddiant fapiau, atlasau, ffotograffau a thaflenni gwybodaeth a thasgau i gwblhau eu gwaith i safon dda.

322 Dengys disgyblion ag AAA lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth o brif nodweddion tirwedd Cymru a'r Eidal.

323 Mae gan fwyafrif o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o ystod eang o dermau daearyddol. Defnyddiant eiriau allweddol yn gywir ym mhob agwedd o'u gwaith.

324 Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos dealltwriaeth dda o brif nodweddion a lleoliad 'favelas' o fewn prif ddinasoedd Brazil. Mae ganddynt werthfawrogiad da o'r tlodi erchyll a gysylltir ag anheddiad.'favelas'.

325 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o agweddau o ddaearyddiaeth Cymru. Mae eu gwybodaeth o ddosbarthiad nodweddion tirlun Cymru yn dda.

Diffygion

326 Dengys lleiafrif o lyfrau'r disgyblion ddiffyg manylder wrth gwblhau tasgau a osodwyd. Caiff hyn effaith negyddol ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion hyn.

327 Gafael ansicr sydd gan leiafrif o ddisgyblion ar eu dealltwriaeth a'u defnydd o dermau daearyddol.

CA4

Nodweddion da

328 Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o fodel defnydd tir-trefol Burgess. Maent yn cydweddu'n gywir dystiolaeth ysgrifenedig a ffotograffig i'r parthau defnydd-tir priodol.

329 Mae safon sgiliau daearyddol yn dda. Defnyddia'r rhan fwyaf o ddisgyblion fapiau, ffotograffau a deunydd ysgrifenedig yn hyderus i gyflawni deilliannau da.

330 Dengys y mwyafrif o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r cysyniad o globaleiddio. Cyflwynant enghreifftiau cywir o gwmnïau sydd wedi ymledu ar draws y byd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o effaith y cwmnïau hyn ar batrymau economaidd a chymdeithasol o fewn y gwledydd.

331 Defnyddia'r rhan fwyaf o'r disgyblion eirfa ddaearyddol yn gywir a hyderus.

332 Cyflawna disgyblion ag AAA waith o safon dda yn unol â'u gallu.

Diffygion

333 Nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflwyno gwaith yn gyson sy'n adlewyrchu'n llawn eu gallu.

334 Dengys ymatebion llafar ac ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion ddiffyg manylder o safbwynt gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar safon eu gwaith.

335 Dengys llyfrau gwaith ychydig o ddisgyblion fylchau a gwaith anghyflawn. Caiff hyn effaith negyddol ar safonau.

336 Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ansicr wrth ddosbarthu defnydd-tir a ddewiswyd ac a enwyd i'w parthau priodol.

Chweched dosbarth

Nodweddion da

337 Dengys myfyrwyr ddealltwriaeth dda o'r mathau o symudiadau plât a therfynau. Gwerthfawrogant y cysylltiad rhwng y math o symudiad plât a'r terfyn canlyniadol.

338 Defnyddir y derminoleg ddaearyddol a gysylltir â thectoneg platiau yn briodol a chywir i esbonio a disgrifio symudiad plât.

339 Mae lefel dda o ddealltwriaeth o rai o'r problemau a gysylltir â'r newidiadau economaidd diweddar yn Tsieina.

Diffygion

340 Dengys nifer o agweddau o waith y myfyrwyr ddiffyg difrifol yn nyfnder a manylder y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddisgwylir gan fyfyrwyr safon Uwch.

341 Mae myfyrwyr yn ansicr wrth leoli ardaloedd a mannau penodol ar raddfa byd eang mewn perthynas â thectoneg platiau

342 Mae'r bylchau sylweddol yng ngwybodaeth ddaearyddol gefndirol y myfyrwyr yn cael effaith negyddol ar safonau.

Cerddoriaeth

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 4: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Chweched dosbarth: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig

343 Mae canlyniadau arholiadau TGAU yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn uwch na'r canlyniadau sirol a chenedlaethol ar gyfer graddau A*-C. Mae'r canlyniadau hyn yn cynrychioli cyflawniad da i'r disgyblion hyn.

344 Cyflawnodd pob myfyriwr radd C neu uwch yn arholiadau safon Uwch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid yw cymhariaeth â chanlyniadau'r AU a Chymru'n briodol oherwydd y niferoedd bychan o fyfyrwyr a safodd yr arholiad.

CA3

Nodweddion da

345 Mae ansawdd y canu yn dda ac wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymgynhesu a chanu caneuon gyda brwdfrydedd, mwynhad ac ynganiad clir. Yn gyffredinol, maent mewn tiwn ac yn canu gyda thôn dda. Gall rhai disgyblion gynnal rhan annibynnol mewn darn deulais.

346 Gall mwyafrif y disgyblion berfformio rhan unigol yn rhwydd, yn gywir ac i safon dda ar ystod o offerynnau, gan gynnwys allweddellau a gwahanol offerynnau taro. Defnyddiant dechneg dda.

347 Mae'r disgyblion i gyd yn gweithio'n dda mewn grwpiau a pharau i gyfansoddi ystod o ddarnau wrth ymateb i wahanol symbyliadau. Mae mwyafrif y darnau hyn o safon dda. Maent yn cynnwys darnau a gyfansoddwyd gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol 'Micrologic'.

348 Dengys y disgyblion ddealltwriaeth dda o elfennau cerddorol. Gallant adnabod yr elfennau wrth wrando ar ystod o gerddoriaeth, gan gynnwys eu cyfansoddiadau eu hunain. Defnyddiant eirfa a therminoleg dda pan ymatebant i gerddoriaeth.

Diffygion

349 Nid yw rhai disgyblion yn canu gydag ystum da ac mae hyn weithiau yn effeithio ar y donyddiaeth. Nid yw ansawdd y canu'n gyson ym mhob dosbarth.

350 Mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion yn cael anhawster i gadw amser gydag eraill mewn darnau ensemble.

CA4

Nodweddion da

351 Mae disgyblion sydd yn astudio Tystysgrif Gyntaf Lefel 2 BTEC (Cyngor Busnes ac Addysg Technoleg) mewn cerddoriaeth yn caffael ystod o sgiliau perthnasol a throsglwyddadwy.

352 Mae mwyafrif llethol y disgyblion sy'n astudio cerddoriaeth TGAU yn perfformio darnau unigol i safon dda, ac ychydig iawn i safon dda iawn.

353 Mae cyfansoddiadau gan ddisgyblion TGAU at ei gilydd o safon dda gyda defnydd da o gerddoriaeth TGCh.

354 Dengys disgyblion TGAU sgiliau gwerthuso da. Dangosant ddealltwriaeth dda o gysyniadau cerddorol a gallant adnabod y prif nodweddion mewn darn o gerddoriaeth. Ymatebant drwy ddefnyddio terminoleg briodol a gallant wahaniaethu rhwng ac o fewn yr elfennau cerddorol.

Diffygion

355 Nid yw rhai cyfansoddiadau yn cynnal diddordeb cerddorol.

Chweched dosbarth

Nodweddion da

356 Mae rhai myfyrwyr cerddoriaeth Uwch Gyfrannol (UG) yn perfformio darnau unigol i safon dda iawn.

357 Mae cyfansoddiadau at ei gilydd yn dda.

358 Datblygir sgiliau gwrando a gwerthuso'n effeithiol.

Diffygion

359 Tuedda cyfansoddiadau i fod braidd yn un-ddimensiynol, ac weithiau'n dangos diffyg datblygiad cerddorol ac amrywiaeth.

Addysg gorfforol

Cyfnod allweddol 3: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 4: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Chweched dosbarth: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol

360 Mae canlyniadau arholiadau TGAU yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn agos i gyfartaleddau lleol a chenedlaethol ar gyfer graddau A*-C. Mae canlyniadau wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar. Mae'r canlyniadau diweddaraf yn cynrychioli cyflawniad da iawn gan y disgyblion.

361 Mae canlyniadau arholiadau safon Uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn uwch na lefelau lleol a chenedlaethol. Mae'r canlyniadau hyn yn cynrychioli cyflawniad rhagorol gan y myfyrwyr.

CA3

Nodweddion da

362 Mewn gweithgareddau creadigol, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos technegau gymnasteg unigol o safon uchel. Gweithia'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn gyda phartneriaid i gynhyrchu dilyniannau symudiad o safon uchel, gan gynnwys cymesuredd, amseriad a gwreiddioldeb yn y cyfansoddiad.

363 Mewn gweithgareddau gemau cystadleuol, mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos safonau da mewn sgiliau rygbi, hoci a phêl rwyd. Yn y tri gweithgaredd, gall bron pob disgybl anfon a derbyn yn gywir ac yn effeithiol.

364 Gall mwyafrif y disgyblion fireinio'r sgiliau sydd ganddynt, a datblygu technegau newydd drwy'r gwersi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos safonau da wrth weithredu tactegau amddiffyn ac ymosod.

365 Dengys mwyafrif y disgyblion safonau da wrth gynllunio a pherfformio amrywiaeth o sgiliau gyda hyder, a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

366 Gall bron y cyfan o ddisgyblion ag AAA gymryd rhan i safon dda.

Diffygion

367 Mae ffitrwydd corfforol ychydig o ddisgyblion yn anfoddhaol ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar safonau perfformiad.

368 Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn arddangos sgiliau echddygol manwl anfoddhaol.

CA4

Nodweddion da

369 Gwelir gwaith o safon uchel mewn agweddau iechyd, ffitrwydd a lles y cwrs. Gall llawer o ddisgyblion gynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglen ffitrwydd, ac arwain ymgynhesu ac ymoeri. Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos dealltwriaeth dda o sut y datblygir elfennau ffitrwydd corfforol, a'r modd y maent yn perthnasu i ffordd o fyw iach a bywiog.

370 Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos gwybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth o gynnwys y cynllun gwaith, a sut i gymhwyso eu gwybodaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol a damcaniaethol.

371 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos safonau da iawn wrth gynllunio, perfformio a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mewn gweithgareddau cystadleuol, cynhyrcha llawer o ddisgyblion waith o safon uchel mewn hoci a badminton.

Diffygion

372 Annigonol yw gwybodaeth bynciol ychydig o ddisgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar safon eu gwaith.

Chweched dosbarth

Nodweddion rhagorol

373 Mae pob myfyriwr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o fodiwlau arholiad. Gall pob myfyriwr ddadansoddi'n gywir amrywiaeth o brotocolau prawf ffitrwydd, gwerthuso'r data, ac awgrymu gwelliannau ymarfer i wella perfformiad.

374 Mae bron pob myfyriwr yn arddangos gallu rhagorol i asesu'n feirniadol eu perfformiad eu hunain, adnabod eu cryfderau a'u gwendidau, ac yna llunio strategaethau ar gyfer gwelliant.

375 Mae aseiniadau bron pob myfyriwr ar gyfer eu cwrs arholiadol o safon uchel, yn arddangos dealltwriaeth gadarn mewn cynhyrchu posteri, taflenni hysbysu a chyflwyniad estynedig.

Nodweddion da

376 Mae bron pob myfyriwr yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch mewn addysg gorfforol a chwaraeon.

377 Mae bron pob myfyriwr yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a chwaraeon da iawn sydd ar gael i safon uchel.

Diffygion

378 Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Dymuna'r ysgol ddiolch i'r tîm arolygu am eu proffesiynoldeb a'u trylwyredd cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Rydym yn hynod o falch o'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd ac i'r gydnabyddiaeth a roddir i waith holl weithlu'r ysgol, y corff llywodraethu, y disgyblion a'r rhieni er mwyn sicrhau bod Ysgol Uwchradd Bodedern yn ysgol dda a chynhwysol.

Gwerthfawrogir y gydnabyddiaeth a roddir i'r gwelliant mewn safonau ac i gydnabod rhagoriaeth yn y meysydd canlynol:

- sgiliau dwyieithog a sgiliau technoleg gwybodaeth y disgyblion;
- y profiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol;
- y cymorth a'r gofal yn yr ysgol;
- y cymorth ar gyfer disgyblion a myfyrwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- i ymddygiad gwych y disgyblion a'r myfyrwyr a'r berthynas rhwng y disgyblion a'r athrawon;
- i ymrwymiad yr ysgol i'r Cynllun Ysgolion Iach;
- i'r safonau mewn datblygiad diwylliannol, cymdeithasol a moesol y disgyblion a'r myfyrwyr;
- i'r cynllunio datblygol a hunan arfarnu; ac
- i'r llu o bartneriaethau y mae'r ysgol wedi'u sefydlu.

Cred Ysgol Uwchradd Bodedern fod yr arolygiad wedi bod yn brofiad buddiol a bydd yn gweithredu ar yr argymhellion gan fanylu ar y camau yn y CGY newydd .Sicrheir y byddwn yn parhau i weithio'n frwdfrydig er mwyn anelu at ragoriaeth ym mhob agwedd o waith yr ysgol yn y dyfodol.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Uwchradd Bodedern
Math o ysgol	Uwchradd
Ystod oedran y disgyblion	11–18
Cyfeiriad yr ysgol	Bodedern Ynys Môn
Cod post	LL65 3SU
Rhif ffôn	01407 741000

Pennaeth	Annwen Morgan
Dyddiad penodi	Ebrill 2007
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	John R Jones Ynys Môn
Arolygydd cofrestredig	William Gwyn Thomas
Dyddiadau'r arolygiad	2/11–5/11/2009

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	115	155	152	142	151	79	35	829

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	40 + Pennaeth	11	47.8

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	17.4:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	0
Cyfartaledd maint grŵp addysgu	24
Cymhareb cyswllt gyffredinol (canran)	78.5%

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad								
	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Ysgol gyfan
Tymor 1	93.0	91.0	90.0	89.9	92.0	91.4	86.0	91.0
Tymor 2	93.1	90.9	90.3	90.6	90.9	91.4	88.4	91.1
Tymor 3	93.4	91.8	91.1	88.6	97.4	94.6	89.1	91.7

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	14.93
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	Permanent 0/ Temporary 25

Atodiad 3

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru

Ysgol Uwchradd Bodedern
Ynys Môn

Rhif yr AALl/Ysgol:660/4029

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi
Cyfnod Allweddol 3

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009
Saesneg	62	64	63	86	78	78	73	71	71
Cymraeg	64	70	67	85	80	83	74	75	75
Mathemateg	72	74	72	77	73	75	74	74	73
Gwyddoniaeth	75	76	74	89	77	78	82	76	76
DPC	63	60	57	72	65	66	67	62	61



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1	Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2	Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3	Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4	Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

10% neu fwy a hyd at 15% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartel 4	Ffin Chwartel Isaf	*Chwartel 3*	Ffin Canolrif	*Chwartel 2*	Ffin Chwartel Uchaf	*Chwartel 1*
Saesneg		70	73	74		79	
Cymraeg		67	74	77		81	
Mathemateg		73	74	78		81	
Gwyddoniaeth		75		80		82	
DPC		60		66	67	71	

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I siorhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 5 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru

Ysgol Uwchradd Bodedern
Ynys Môn

Rhif yr AALl/Ysgol:660/4029

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi
Cyfnod Allweddol 3

Canran disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig (Lefel 5+)

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009
Cymraeg Ail Iaith	58	43	46	83	57	66	67	48	56
Iaith Dramor Fodern	66	62	55	95	78	73	79	69	64
Dylunio a Thechnoleg	74	68	68	89	80	83	81	73	75
Technoleg Gwybodaeth	86	76	72	91	84	83	88	79	77
Hanes	67	62	66	82	73	78	74	67	72
Daearyddiaeth	79	69	67	91	80	77	84	74	72
Celf	76	71	66	80	85	85	78	77	75
Cerddoriaeth	64	59	66	86	72	81	74	65	73
Addysg Gorfforol	76	79	72	80	65	72	78	73	72



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1	Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2	Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3	Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4	Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

10% neu fwy a hyd at 15% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartel 4	Ffin Chwartel Isaf	*Chwartel 3*	Ffin Canolrif	*Chwartel 2*	Ffin Chwartel Uchaf	*Chwartel 1*
Cymraeg Ail Iaith		50		61	***67***	71	
Iaith Dramor Fodern		61		68		75	***79***
Dylunio a Thechnoleg		73		80	***81***	85	
Technoleg Gwybodaeth		78		83		86	***88***
Hanes		72	***74***	76		80	
Daearyddiaeth		74		79		83	***84***
Celf		76	***78***	83		89	
Cerddoriaeth		72	***74***	78		83	
Addysg Gorfforol		68		76	***78***	82	

Nodiadau:

1. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Ysgol Uwchradd Bodedern

SSSP

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol Uwchradd (1)

Rhif AALl/Ysgol. 660/4029

Disgyblion 15 oed

Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2009 : 131

Canran y disgyblion 15 oed a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd rothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan nnwys TGAU mewn Saesneg neu mraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg	Dangosydd ynciau Craidd (2)	Sgor bwyntiau rfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2008/09	99	93	65	56	56	364
Ardal AALl 2008/09	98	89	58	47	47	357
Cymru 2008/09	99	88	61	47	46	379
Ysgol 07/08/09	98	95	55	..	44	340
Ysgol 06/07/08	..	..	..	..	40	322

Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2009 : 74

Canran y bechgyn 15 oed a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd rothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan nnwys TGAU mewn Saesneg neu mraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg	Dangosydd ynciau Craidd (2)	Sgor bwyntiau rfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2008/09	100	91	61	54	55	353
Ardal AALl 2008/09	97	85	48	40	42	318
Cymru 2008/09	98	86	55	43	43	357
Ysgol 07/08/09	99	94	48	..	40	319
Ysgol 06/07/08	..	..	..	..	33	297

Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2009 : 57

Canran y merched 15 oed a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd rothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan nnwys TGAU mewn Saesneg neu mraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg	Dangosydd ynciau Craidd (2)	Sgor bwyntiau rfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2008/09	98	96	70	60	56	378
Ardal AALl 2008/09	98	93	68	55	54	400
Cymru 2008/09	99	91	66	51	50	401
Ysgol 07/08/09	97	96	65	..	49	366
Ysgol 06/07/08	..	..	..	..	49	355

Ysgol Uwchradd Bodedern

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol Uwchradd (1)

SSSP

Rhif AALI/Ysgol. 660/4029

Disgyblion 15 oed

	Canran y disgyblion 15 oed a:		Canran y bechgyn 15 oed a:		Canran y merched 15 oed a:	
	enillodd un CLM (3) neu ragor yn unig	yn gadael addysg amser-llawn heb unrhyw gymhwyster (4)	enillodd un CLM (3) neu ragor yn unig	yn gadael addysg amser-llawn heb unrhyw gymhwyster (4)	enillodd un CLM (3) neu ragor yn unig	yn gadael addysg amser-llawn heb unrhyw gymhwyster (4)
Ysgol 2008/09	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Ardal AALI 2008/09	1	0.4	2	0.3	0	0.6
Cymru 2008/09	2	0.9	3	1.0	1	0.8
Ysgol 07/08/09	0	..	0	..	0	..
Ysgol 06/07/08	0	..	0	..	0	..

Disgyblion 17 oed

	Nifer y disgyblion 17 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2009 : 35		Nifer y bechgyn 17 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2009 : 11		Nifer y merched 17 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2009 : 24	
	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy lefel 3	Sgor bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy lefel 3	Sgor bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy lefel 3	Sgor bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed
Ysgol 2008/09	100	1014	100	983	100	1028
Ardal AALI 2008/09	99	931	99	886	99	957
Cymru 2008/09	96	688	95	656	97	715
Ysgol 07/08/09	..	743	..	751	..	740
Ysgol 06/07/08	..	..	..	..	..	..

SSSP

ENW'R YSGOL
Math o Ysgol: Comprehensive 11-18
Iaith yr Ysgol: Bilingual **LEA/School No. 660/4029**

Nifer o Unedau AAA/Dosbarthiadau Arbennig: 0

Nifer y disgyblion ar y gofrestr ym mlwyddyn 11: 131

Nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a hawl i gael prydau am ddim yn 2008/09: 14.9

Nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a hawl i gael prydau am ddim yn 07/08/09: 14.8

Nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol ar y gofrestr AAA: 25.7

Nifer y disgyblion 15 oed ar y gofrestr AAA: 19.8

Lefel o Fagloriaeth Cymru a gynigir:

	Lefel uwch ar gyfer disgyblion ôl-16	Lefel canolradd ar gyfer disgyblion ôl-16	Peilot Lefel sylfaen ar gyfer disgyblion ôl-16	Peilot Lefel canolradd ar gyfer disgyblion llai na 16 oed	Peilot Lefel sylfaen ar gyfer disgyblion llai na 16 oed
Cynigir y Fagloriaeth Cymru: Yes	Yes	No	No	No	No

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd arolygwyr gyfanswm o 41 o ddiwrnodau yn yr ysgol ac ymunwyd â nhw gan ddirprwy bennaeth yr ysgol fel enwebai. Cynhaliwyd cyfarfod cyn yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr yn ymweld â

- 95 o wersi;
- cyfnodau cofrestru a gwasanaethau; a
- rhai gweithgareddau allgyrsiol.

Cyfarfu aelodau o'r tîm arolygu â

- staff, rhieni a llywodraethwyr cyn yr arolygiad;
- uwch rheolwyr, rheolwyr canol, athrawon, cynorthwywyr cynnal a staff gweinyddol;
- grwpiau o ddisgyblion yn cynrychioli pob grŵp blwyddyn;
- cynrychiolwyr o'r cyngor ysgol; a
- partneriaid busnes a phartneriaid eraill yr ysgol.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- 260 o ymatebion i holiadur y rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- enghreifftiau o adroddiadau disgyblion; ac
- ystod o waith y disgyblion.

Ar ôl yr arolygiad, cynhaliodd yr arolygwyr gyfarfodydd gydag adrannau, uwch rheolwyr a llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
William Gwyn Thomas Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion, Atodiadau Cwestiynau Allweddol 1 a 5
William Owen	Arolygydd Lleyg
Manon Wyn Siôn	Cwestiwn Allweddol 2
Peredur Francis	Cwestiwn Allweddol 3
Glyn Griffiths	Cwestiwn Allweddol 4
Bethan Whittal	Cwestiwn Allweddol 6
David Hughes	Cwestiwn Allweddol 7
Julie Griffiths	Saesneg
Delyth Williams	Gwyddoniaeth
Huw Llewelyn	Daearyddiaeth
David Charles	Technoleg gwybodaeth
Emyr Wyn Jones	Cerddoriaeth
Dr Stephen Lloyd	Addysg gorfforol
Huw Robertson	Asesydd cymheiriaid
Irfon Price Morris	Enwebai

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad parod trwy gydol yr arolygiad.

Contractwr: EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ